# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)** | | **THE EXECUTIVE (BUDGET)** |
| **DYDD LLUN 15 RHAGFYR 2014 10.00 o'r gloch** | | **MONDAY 15 DECEMBER 2014 10.00 o'r gloch** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**Annibynnol / Independent**
R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**
J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2014.

**4** **STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD Y CYNGOR 2014-17** (Tudalennau 9 - 40)

I ystyried adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd.

**5** **Y GYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2015-16** (Tudalennau 41 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**6** **RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT 2015-16** (Tudalennau 53 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**7** **COSTAU CLUDIANT YSGOL** (Tudalennau 61 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes.

**8** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".* – **I DDILYN**

**9** **AIL-STRWYTHURO'R UWCH DIM RHEOLI GYDA'R GOLWG AR WNEUD ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. – **I'W GYFLWYNO YN Y CYFARFOD**

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones a Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg Gydol Oes)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedol)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaeth (Tai) (Eitemau 11 a 12)<br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd (Eitem 4)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BO)<br>Rheolwr Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau (GHJ) (Eitem 7, 8 a 10)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol (DR) (Eitem 12)<br>Rheolwr Cynllunio (Polisi) (NHD) (Eitem 14)<br>Arweinydd Tîm Dros Dro (Polisi) (LL) (Eitem 14)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Llinos M. Huws, Bob Parry OBE. |
| **YMDDIHEURIADAU** | Dim |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd Aled Morris Jones ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 10 ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w ddatgan.

### 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2014 fel rhai cywir.

### 6 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w gymeradwyo, adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Ionawr – Awst 2015.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd y bydd yr eitemau a ganlyn a raglennwyd yn wreiddiol i'w trafod ym mis Ionawr 2015 yn cael sylw pellach yn y cyfarfod ym Mawrth 2015:-

- Newidiadau Cyfansoddiadol - Cylch Gorchwyl - Pwyllgor Apeliadau, Ymchwilio a Datblygu
- Newidiadau Cyfansoddiadol - Cylch Gorchwyl - Pwyllgor Archwilio

Cyflwynir yr eitem ychwanegol a ganlyn i'r cyfarfod ym mis Ionawr 2015:-

Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl

**Penderfynwyd cadarnhau'r Flaenraglen Waith oedd wedi ei diweddaru am y cyfnod Ionawr - Awst 2015.**

## 5 ADRODDIAD MONITRO AR Y CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - AIL CHWARTER 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2.

Er ei fod yn croesawu'r gwelliant yn y lefelau salwch dywedodd yr Aelod Portffolio (Busnes Gweithredol, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) fod angen i'r adrannau wella'r lefelau a'r data salwch ymhellach.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn bryderus mai 53% o'r adolygiadau datblygiad proffesiynol oedd wedi eu cwblhau yn y 6 mis cyntaf o gymharu â 64% yn y flwyddyn gynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## 6 CYLLIDEB 2014-15 – AIL CHWARTER – CAMAU A NODWYD

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r camau mae'r UDA yn teimlo eu bod yn angenrheidiol i ddod â'r Cyngor i sefyllfa gytbwys ar gyfer 2014/15.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## 7 SAIL Y DRETH GYNGOR 2015-16

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r cyfrifiad a wnaed yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1) 2015/16 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2014 a chan ddefnyddio disgowntiau ac eithriadau. Mae'r cyfrifiadau hefyd yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2015/16.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo :-**

- **cyfrifiad sail y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am 2015/16.**

- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad 2004), y symiau a gyfrifiwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2015/16 fydd 30,188.51 fel y cânt eu rhestru yn yr adroddiad ar gyfer y Trefi/Cymunedau unigol.**

## 8 CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2015-16

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir:-**

- **Na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall.**

- **Y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.**

- **Ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.**

## 9 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN 2014-15

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r rheidrwydd ar y Cyngor Sir i fabwysiadu Cynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2015 mewn perthynas â 2015/16.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn nodi'r adroddiad a'i gynnwys.**

**10 CYMRU – CYNLLUN ANGHENION LLEOL UWCH – CYMORTH TRETHI BUSNES 2014-15**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod 4 opsiwn wedi cael sylw dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ar gyfer rhoi cymorth tuag at drethi busnes mewn perthynas â chyllid ELNS.

**PENDERFYNWYD –**

- **Bod Opsiwn 1, fel sydd wedi nodi yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo fel y maen prawf prawf dros roi cymorth mewn perthynas â'r cyllid CALLU (Opsiynau 1- 4) o dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.**

- **Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i wneud trefniadau gweinyddol i gymeradwyo rhoi cymorth i'r busnesau sy'n bodloni meini prawf cymhwyso'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer CALLU.**

- **Bod y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd i hyrwyddo'r CALLU a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ac 'Agored am Fusnes', 'Cymorth Busnes Newydd' a 'Cymorth Manwerthu Cymru'.**

**11 TYNNU ALLAN O'R CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) mewn perthynas â dod allan o'r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai. Nodwyd bod dwy ran i'r cytundeb gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a fydd yn caniatáu i awdurdodau ddod allan o'r system CCRT a dod yn hunangyllidol o Ebrill 2015 a thynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad.

Ystyriwyd bod angen trefnu Seminar ychwanegol ar gyfer Aelodau Etholedig yn y Flwyddyn Newydd ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD –**

- **I gymeradwyo tynnu allan o'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (CCRT) ar 31 Mawrth 2015 a thrwy hynny ddod yn hunan-gyllidol.**

- **I gymeradwyo trosglwyddo ein benthyciadau CRT presennol a 'chap benthyca' yn y dyfodol o Drysorlys Ei Mawrhydi i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC)**

- **I gymeradwyo sefydlu Cytundeb Gwirfoddol drafft gyda Llywodraeth Cymru.**

- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i arwyddo fersiwn derfynol y Cytundeb Gwirfoddol, i'w ddychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Ionawr 2015.**

- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac / neu'r Swyddog Adran 151 ar y dyddiadau hanfodol pan gaiff arian ei drosglwyddo, i awdurdodi unrhyw newidiadau munud olaf yn y ffigyrau, neu unrhyw ddiwygiadau eraill i'r dogfennau trosglwyddo, all godi ar y dyddiadau allweddol (dyddiad Trosi 31 Mawrth 2015 a dyddiad Trafodiad 2 Ebrill 2015).**

- **Bod copi o gynllun busnes CRT 30 blynedd 2015 – 2045 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2015 er mwyn rhoi sicrwydd ar ei ymarferoldeb, cynaliadwyaeth a fforddiadwyaeth.**

- **Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo ynglŷn â'r newidiadau arwyddocaol a ddaw yn sgil hunan-gyllido.**

- **Trefnu seminar pellach ar gyfer Aelodau Etholedig mewn perthynas â'r cyfleoedd a'r ymrwymiadau hunan-gyllido o ran y Cyfrif Refeniw Tai.**

## 12 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISI A'R STRATEGAETH AR GYFER ADNEWYDDU TAI SECTOR PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r Polisi a'r Strategaeth ar gyfer Adnewyddu Tai Sector Preifat.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo mewn egwyddor:**

- **Y newidiadau a wnaed i'r strategaeth a'r polisi ar gyfer adnewyddu tai sector preifat, yn amodol ar ymgynghori gyda phartneriaid a sefydliadau allanol, a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Tai ystyried unrhyw sylwadau a wneir, a hynny mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio.**

- **Penodi Street UK Services Cyf., sef darparwr trydydd parti, i weinyddu a rheoli cynlluniau benthyciadau ar ran y Cyngor a throsglwyddo dyraniad y Cyngor ar gyfer benthyciadau i Street UK Services Cyf., fel 'Arian Cyfleuster' er mwyn gwasanaethu'r benthyciadau, yn amodol ar argymhellion y Swyddog Adran 151.**

**13 RHAGLEN WAITH AR GYFER BWRDD CYFLAWNI INTEGREDIG YNYS MÔN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Oedolion) mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer Bwrdd Cyflawni Integredig (BCI) Ynys Môn ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y gall y Bwrdd gynorthwyo i ddatblygu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymuned yn Ynys Môn.**

**14 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ADNEUOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) mewn perthynas â'r Cynllun Adneuol a'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Pan fo Cynghorau yn ymgynghori ar y Cynllun Adneuol rhaid iddynt hysbysebu'r ymgynghoriad yn unol â Rheoliadau CDLl a rhoi gwybod i'r partïon a nodwyd yn y Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol (gan gynnwys ymgyngoreion statudol) a chaniatáu chwe wythnos ar gyfer gwneud sylwadau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch unrhyw fân-newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Cynllun Adneuol cyn ei gyhoeddi i ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus, esboniodd y Rheolydd Cynllunio yr ystyrir y byddai angen polisi ychwanegol yn delio gyda llety pwrpasol ar gyfer gweithwyr adeiladu. Roedd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r awgrym.

Mae'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2014 yn dangos y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal rhwng Chwefror a Mawrth 2015.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell i'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Adneuol drafft gyda mân newidiadau ar gyfer ymgynghori'n gyhoeddus yn ei gylch er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol.**
- **Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn adlewyrchu'r trefniadau newydd a chydymffurfio gyda'r gofynion statudol.**

**15 FFIOEDD ARFOROL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol mewn perthynas â Ffioedd Cychod Pleser/Siarter Masnachol ar gyfer 2014/15 a 2015/16.

**PENDERFYNWYD**

- **Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith y dylai'r ffi cychod siarter am 2014/15 a 2015/16 (gyda'r cynnydd mewn ffioedd a thaliadau a fabwysiadwyd gan y Cyngor wedi ei gynnwys) fod yn daliad graddfa wastad o £400 (£480 gyda TAW) heb unrhyw ostyngiad yn cael ei roi i gychod eraill fydd gan y gweithredwr. Gweithredwyr trwyddedig sy'n ymweld (o'r tu allan i'r ardal) i dalu £30 (£36 gyda TAW) / am bob trip.**

- **Fel arwydd o ewyllys da i weithredwyr masnachol Port Amlwch, cytunodd y Pwyllgor Gwaith hefyd i ddileu'r dyledion mewn perthynas â'r ffioedd ar gyfer cychod siartr masnachol na chawsant eu casglu yn 2013/14**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **15.12.14** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Effeithlonrwydd – Canlyniadau Arolwg Gwneud Gwahaniaeth 2014** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Bethan Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried canlyniadau'r arolwg ar gyfer y Strategaeth Effeithlonrwydd "Gwneud Gwahaniaeth" yr ymgymerwyd â hi yn ystod Hydref/Tachwedd 2014 a nodi ymateb dinasyddion Ynys Môn i'r cynigion a'r syniadau a gyflwynwyd yn yr holiaduron.

1.1.1 Roedd yr arolwg ar gael mewn amryfal ffyrdd gan gynnwys ar-lein, roedd holiaduron ar gael yn Llyfrgelloedd y Sir a chylchredwyd holiaduron wyneb yn wyneb yn y lleoliadau canlynol:

- Marchnad Caergybi
- Morrisons Caergybi
- Marchnad Amlwch
- Co-operative Amlwch
- Marchnad Llangefni
- Llyfrgell Biwmares
- Llyfrgell Porthaethwy

1.1.2 Amlinellir yr ymateb i'r cynigion yn yr arolwg yn fanylach yn Atodiad A ac mae'n cynnwys dadansoddiad o ymatebion i'r 16 cynnig a detholiad o sylwadau ar draws y gwahanol fathau o ymgynghori – yr ymatebion i adran 'sylwadau' yr holiaduron, llythyrau ac e-byst a dderbyniwyd a sylwadau a nodwyd o ymgynghori wyneb yn wyneb.

1.1.3 Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith o ganlyniad i'r ymgynghori ar y Strategaeth Effeithlonrwydd yn mabwysiadu'n ffurfiol y strategaeth ac yn alinio ei gynigion cyllidebol ar gyfer y 3 blynedd gyda'r egwyddorion sydd wedi ei hamlinellu ynddi.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Nid yw'r penderfyniad hwn yn un sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor llawn dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (a.101), ac nid yw ychwaith wedi ei ddirprwyo i swyddog dan adran 13(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000, ac o'r herwydd, mae'n benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| | **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

DRAFT

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A – STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD – “GWNEUD GWAHANIAETH” CANLYNIADAU AROLWG 2014<br>Atodiad B  - Strategaeth Effeithlonrwydd Ynys Môn 2014-2017. |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

DRAFT

**ATODIAD A**

**STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD – CANLYNIADAU AROLWG "GWNEUD GWAHANIAETH" 2014**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyllideb o £126m ac rydym yn amcangyfrif y bydd angen i ni arbed oddeutu £15m dros y tair blynedd nesaf.

**1.2** Mae angen y Strategaeth Effeithlonrwydd er mwyn darparu cyfeiriad clir dros y blynyddoedd nesaf ac i sicrhau dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, staff a chynghorwyr ynglŷn â'r modd yr ydym yn bwriadu cwrdd â'n heriadau ariannol.

**1.3** Mae ymarfer ymgynghori 2014 yn dilyn ymlaen o ymarfer tebyg a gynhaliwyd yn 2013 pan gafwyd ymarfer ymgynghori a arweiniodd at dderbyn dros 900 o ymatebion.

**1.4** Fel rhan o arolwg 2013, gofynnwyd i'n trigolion lle fyddant hwy yn gwneud arbedion ac a oeddynt yn cytuno gyda rhai o'r dulliau arfaethedig o wneud/arbed arian yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynyddu ffioedd parcio a hamdden
- Rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau am ddim neu wasanaethau am bris gostyngol
- Trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Cyngor i'r sector preifat, y gymuned neu sefydliadau gwirfoddol.
- Gweithio gyda sefydliadau preifat, cymunedol a gwirfoddol i greu menter gydweithredol neu sefydliad ar y cyd i redeg gwasanaeth.
- Cydweithio gyda Chynghorau eraill i ddod ag arbedion mawr o ran cost.
- Adolygu nifer yr adeiladau a chyfleusterau yr ydym yn eu rhedeg.
- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau yn gyfan gwbl ac os felly, pa rai.

**1.5** Mae'r canlyniadau o'r atborth ar ymgynghoriad 2013 yn y cwmwl geiriau isod (Ffig 2).




**1.6** Er mwyn cyflwyno opsiynau i'w rhoddi gerbron dinasyddion Ynys Môn fel rhan o'r ymarfer ymgynghori eleni, cafodd syniadau a chynigion eu drafftio trwy drafodaethau eang gyda chynghorwyr, rheolwyr a staff. Yr egwyddorion sylfaenol i'r cynigion oedd:-

- Gwneud yn siŵr bod y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws y Cyngor yn sicrhau gwerth da am arian.
- Lleihau costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth i'r hyn sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau da.
- Gweithio gydag eraill lle mae hyn yn arbed arian i ni neu i gadw gwasanaeth bychan pwysig i fynd.
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau o'n staff
- Cynyddu incwm i'r Cyngor
- Trawsnewid gwasanaethau y mae'n ymrwymiad cyfreithiol arnom i'w darparu er mwyn sicrhau eu bod yn fodern, yn effeithiol ac effeithlon.
- Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn angenrheidiol nac yn statudol lle mae eraill hefyd yn darparu'r rhain neu lle y gallai eraill eu darparu.
- Deall effaith ein cynigion ar Ynys Môn a'i thrigolion yn arbennig y rheini sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.

**1.7** Lluniwyd y cynigion drafft yn holiadur a gafodd ei gylchredeg ar-lein, drwy lyfrgelloedd y sir a'i gylchredeg wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ar hyd a lled y Sir (Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Biwmares).

**1.8** Cafwyd 433 o ymatebion fel a ganlyn:-

- Ar-lein/llythyrau = 146 (34%)
- Llyfrgelloedd = 150 (35%)
  Wyneb yn wyneb = 137 (32%)

**1.9** Yn ôl ffynonellau arolwg cydnabyddedig (Arolygon Fluid a SurveySytem.com), mae hwn yn sampl ystadegol ddilys sy'n gynrychioliadol o boblogaeth Ynys Môn yn gyffredinol. Byddai'r ffigwr o -383 ymateb yn rhoi lefel hyder 95% yn y canlyniadau gydag (amrywiad a +/-5%).

**1.10** Mae'r amrediad oedran a ymatebodd i'r arolwg fel a ganlyn –

| Amrediad Oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| **-16** | 1 | 0.2 |
| **16-24** | 14 | 3.2 |
| **25-44** | 80 | 18.4 |
| **45-64** | 114 | 26.3 |
| **65+** | 107 | 24.7 |
| **Dim eisiau dweud** | 117 | 27 |

Gyda 40% o'r ymatebwyr yn wrywod
38% o'r ymatebwyr yn fenywod
12% o ymatebwyr ddim eisiau dweud

**1.11** Mae'r rhaniad rhwng y rheiny a nododd eu bod yn Gymraeg, Saesneg, Prydeinig neu unrhyw genedligrwydd arall hefyd yn cyfateb yn gyffredinol i gyfansoddiad demograffig yr Ynys. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn byw ar yr ynys (dros 70%, gyda 27% heb nodi eu statws).


## 2. CANLYNIADAU'R AROLWG

DRAFT

2.1 Roedd canlyniadau Arolwg yn cynnwys 16 o gynigion fel a nodir uchod ac yn rhoddi i ymatebwyr y cyfle i sgorio eu hymatebion rhwng 5-1 yn unol â'r categorïau isod.

1. Anghytuno'n Gryf
2. Anghytuno
3. Dim yn cytuno nac yn anghytuno
4. Cytuno
5. Cytuno'n Gryf

2.2 Roedd y cynnig cyntaf yn un i "**Ostwng nifer y swyddfeydd, adeiladau ac asedau eraill yn ein perchenogaeth megis y cwrs golff"** ac roedd dros 62% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r cynnig gydag ychydig dros 13% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.




**Sylwadau'r Ymatebwyr**:

*"Pryderon mewn perthynas ag adeiladau gwag ar yr Ynys – pam nad yw'r rhain wedi cael eu gwerthu? Mân-ddaliadau – faint sy'n wag ar hyn o bryd?"*

"*Byddai gwerthu adeiladau nad oes eu hangen a dod yn fwy effeithlon yn well, yn yr adran briffyrdd, rwy'n tybio y byddai erwau o le cael eu rhyddhau petai silffoedd, cypyrddau a dogfennau (rhai o 1996) yn cael eu storio neu eu gwaredu"*


*, …"ymddengys bod nifer o adeiladau ym mherchenogaeth y cyngor nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt a gellid eu gwerthu i godi arian"*

*." Dylai'r cyngor ystyried cael gwared ar rai o'i asedau nad ydynt yn cael eu gweld a'u gwerthfawrogi gan y Cyngor, megis gwaith Celf. Dylai'r Cyngor feddwl am ailstrwythuro ac o ganlyniad, ostwng nifer y gweithwyr sydd yn y swyddfeydd a gwerthu neu osod unrhyw le nad oes ei angen"*

*" Rwy'n cytuno gyda gostwng nifer yr asedau ond nid y cyrsiau golff o angenrheidrwydd – o'r farn bod angen adolygu'r asedau"*

*"Gwerthu ysgolion sy'n wag"*

2.3. Yr un modd, roedd dros 91% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r ail gynnig i **…"Weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni"**




**Sylwadau'r ymatebwyr:**

*"Ychydig iawn o adeiladau'r Cyngor sy'n gwneud defnydd o ynni adnewyddadwy. Ac eithrio diffyg cyffredinol o ran ymdrech, mae'n anodd deall pam fod hyn yn bod"*


*"Faint mewn gwirionedd mae'r Cyngor yn mynd i'w arbed gyda'r strategaeth effeithlonrwydd ynni? Dylai addysgu staff, e.e. i roi'r goleuadau i ffwrdd pan yn gadael eu swyddfeydd ac ati arbed arian. A yw'r Cyngor wedi edrych ar arbedion gwirioneddol a geid yn sgil gweithio gyda darparwyr ynni, e.e. gwaith biomas newydd?"*

*"Pam fedrwch chi ddim cael llai o oleuadau stryd yn y trefi ac ar y prif ffyrdd"*

*"Troi goleuadau stryd i ffwrdd rhwng 11pm a 7am"*

*"Dylid gwneud gofalwyr yr holl brif adeiladau'n gyfrifol am "ddisgyblaeth goleuadau" a rheoli'r systemau gwresogi y tu allan i oriau swyddfa, diwedd y dydd a phenwythnosau – arbedion mawr o bosib ar gael drwy wneud hynny"*

2.4 Y cynnig i …"**Ostwng costau hysbysebu" -** 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf o gymharu â'r 7% a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda 17% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.





**Sylwadau ymatebwyr:**

*"Ni ddylai lleihau hysbysebu olygu rhoi llai o rybudd i'r cyhoedd ar faterion a all eu heffeithio. Gallai mynd â hyn yn rhy bell danseilio democratiaeth er mwyn lleihau costau"*

*"Mae busnesau'n llwyddo drwy farchnata ac arloesi, os byddwch yn hysbysebu llai, a fydd modd i chi barhau i gael y neges drosodd a chynnal datblygiad ar yr Ynys?"*

2.5 Y cynnig i..**"Annog y cyhoedd i gael at wasanaethau a chysylltu gyda'r Cyngor drwy e-bost neu'r wefan"** - cafwyd cytundeb cyffredinol i hyn gyda 284 (57%) o bobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ond 96 o bobl (22%) hefyd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf a 89 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.




***Sylwadau'r Ymatebwyr:***


*"Tra'n cydnabod yr angen i arbed costau cyfathrebu ac annog pobl i ddefnyddio e-bost i ohebu ynghyd â defnyddio tudalennau'r wefan i gael gwybodaeth, rhaid gofalu eich bod yn sicrhau fod y bobl hynny (ac mae nifer ohonynt) sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd yn cael gwybodaeth a gohebiaeth ddigonol drwy lythyr gan y Cyngor a bod hynny'n cael ei reoli'r un mor dda"*

*"Wrth wella mynediad i wasanaethau'r Cyngor ac i ddemocratiaeth, mae'n bwysig nodi na fedr unrhyw wefan neu gyfathrebiad ar-lein fod yn hwylus i bob person anabl bob amser. Ni fydd hyd yn oed y gwefannau hynny sy'n cwrdd â'r safonau uchaf o ran mynediad yn hwylus i bawb"*

*"Gwella'r wefan gorfforaethol – ei gwneud yn fwy rhyngweithiol a hwylus i bobl ei defnyddio"*

*"Mae tlodi yn cael effaith ar fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref – tra bod gwella mynediad a gwasanaethau ar-lein i bobl yn rhan hanfodol o sicrhau mynediad hwylus i wasanaethau'r cyngor ac i ddemocratiaeth a sgriwtini, mae angen hefyd sicrhau fod rhybuddion cymunedol, newyddlenni neu bapurau newydd a llythyrau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at breswylwyr"*

2.6 Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno gyda'r cynnig i**..''Adolygu'r contractau cyfredol yn rheolaidd gyda golwg ar sicrhau arbedion mewn contractau mawr, tymor hir''** gydag ond 13 yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.





**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

"Mae angen edrych ar y ffaith bod contractau'n cael eu hallanoli fel contractau tymor hir 3 blynedd gan olygu fod pobl nad ydynt yn lleol yn cael eu cyflogi"

"Dylai contractau gefnogi a gwella'r gymuned leol"

"Nid wyf yn deall pam nad yw contractau gwerth uchel wedi bod yn cael eu hadolygu o'r cychwyn cyntaf. Ymddengys nad oes esgus dros beidio â gwneud hynny"
.
" Mae'r contractau y mae awdurdodau lleol yn eu gosod yn fy mhrofiad i yn cael eu monitro'n agos ac mae angen rhoi mwy o sylw i sut y mae gwasanaethau'r cyngor ei hun yn cwrdd â'r gofynion y mae wedi ei roddi ar eraill"

2.7. O ran y cynnig i "**Ymchwilio i weld a fedrai cymunedau Ynys Môn (gan gynnwys y Cynghorau Tref a Chymuned) gymryd drosodd y cyfrifoldeb am rai o'r gwasanaethau mwy lleol megis meysydd chwaraeon, parciau gwledig a thoiledau cyhoeddus"** roedd bron i 66% yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r cynnig gydag ond 13% yn anghytuno/anghytuno'n gryf.




**Sylwadau'r Ymatebwyr**:

*"Mae cael y Cynghorau Cymuned i reoli a rhedeg cyfleusterau'n syniad da iawn oherwydd mae'n rhoi perchenogaeth a chyfrifoldeb yn ôl i'r cymunedau"*

*"Ni ddylid ond trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau lleol i Gynghorau Tref a Chymuned mewn achosion lle byddai hynny o fudd ariannol cyffredinol i'r gymuned honno"*


*"Nid wyf yn siŵr am gael cynghorau tref lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gyfleusterau - efallai bod hwn yn edrych fel opsiwn rhesymol ond yn y tymor hir, bydd angen cynnal a chadw'r cyfleusterau hyn"*

*"Rhaid i CSYM roi'r gorau i ddibynnu ar y Cynghorau Tref i gwrdd â'r diffyg ariannol sy'n cynyddu'n gyflym .... h.y. Toiledau, Canolfannau Hamdden"*

*"Gwneud mwy o ddefnydd o Gynghorau Tref a Chymuned – maent yn ddi-fflach ac yn aneffeithiol mewn rhai ardaloedd"*

*"Rhaid i ddadansoddiad gynnwys unrhyw gostau ychwanegol a ddaw i ran Cynghorau Tref a Chymuned – gan gynnwys costau gweinyddol a staffio"*

2.8 Nid yn annisgwyl, arweiniodd y cynnig **…"Mae Treth Gyngor Ynys Môn yn weddol isel – rydym yn bwriadu cynnydd o 5**%" at ymateb lle yr oedd 57% yn anghytuno/anghytuno'n gryf gyda 24% yn cytuno/cytuno'n gryf â'r cynnig. Nid oedd 18% fodd bynnag, yn cytuno nac yn anghytuno i'r cynnig.




## Sylwadau'r Ymatebwyr:

"Rwy'n falch bod adolygiad yn mynd rhagddo a'r unig beth negyddol sydd gen i i'w ddweud yw mai'r opsiwn hawdd i'r Cyngor yw taro teuluoedd sy'n gweithio a pherchenogion tai gyda chynnydd eto o 5% yn y dreth gyngor"

"Dylai cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir ac effeithlonrwydd y Cyngor ac nid yn awtomatig blwyddyn ar ôl blwyddyn"


"Nid dyma'r amser i gynyddu'r Dreth Gyngor gan swm sy'n uwch na chwyddiant pan nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn cael codiadau cyfog yn ôl chwyddiant"

"Ni fedrwch barhau i godi'r dreth gyngor uwchlaw cyfraddau chwyddiant. Rydym yn haeddu cyfnod o gynnydd yn y dreth gyngor sy'n llai na chwyddiant. Oni fedr y Cyngor gwrdd â'i gyfrifoldeb statudol i gadw cynnydd islaw cyfraddau chwyddiant, mae angen cael gwybod hynny cyn gynted ag sy'n bosibl"

"Rwy'n derbyn fod y cyngor mewn sefyllfa anodd ond mae cynnydd o 5% yn y dreth gyngor i bob pwrpas yn golygu torri cyflogau gweithlu Ynys Môn sydd, y cyfan ohonynt bron, ar gyflogau isel.

"Tra'n cynyddu'r dreth gyngor i berchenogion tai, nid oes unrhyw awgrymiad y dylid codi rhent tai cyngor hefyd gan yr un 5%. Byddai hwn yn awgrymiad teg oherwydd mae pawb yn defnyddio cyfleusterau'r cyngor p'un a ydynt yn berchenogion eu cartrefi neu'n talu rhent"

2.9 Roedd bron i 70% yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r cynnig i.. **"ymchwilio i godi ychwaneg o dreth gyngor ar berchenogion ail gartrefi ar yr ynys ac ar dai gwag"** gyda 16% pellach ddim yn cytuno nac yn anghytuno a dim ond 13% yn anghytuno/anghytuno'n gryf




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

"Rwy'n cytuno bod angen adolygu'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi oherwydd pethau 'dymunol i'w cael' yw'r rhain yn hytrach na rhywbeth angenrheidiol ac nid wyf yn meddwl y byddai pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Ynys Môn drwy'r amser yn cwyno"

"Rwy'n anghytuno gyda'r polisi o gynyddu'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi ar Ynys Môn yn bennaf oherwydd nad wyf ar hyn o bryd yn gallu gwerthu fy nghyn gartref priodasol ar Ynys Môn oherwydd sefyllfa ddisymud y farchnad dai ar hyn o bryd y tu allan i Lundain"

"Gallai perchenogion ail gartref ymddangos yn simplistig i fod yn darged hawdd ar gyfer codi arian a hynny'n seiliedig ar ddogma gwleidyddol. Yn fy marn i, byddai cynyddu'r dreth gyngor ar gyfer perchenogion ail gartrefi yn annheg ac yn annhebygol o ddarparu ffynhonnell incwm gynaliadwy a châi hefyd effaith andwyol ar fuddiannau tymor hir yr ynys a gallai fod yn agored i adolygiad barnwrol"


"Mae'r Dreth Gyngor i fod i gael ei chodi i ddarparu gwasanaethau lleol. Os nad yw eiddo'n cael ei ddefnyddio ar sail amser llawn, yna nid oes pwysau ar rai cyfleusterau megis ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol ac mae llai o bwysau ar wasanaethau megis yr heddlu a'r gwasanaeth tân. Mae dadl foesol gref i eiddo o'r fath gael ad-daliad. Mae cynyddu'r dreth yn amhriodol o safbwynt moesol ac yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol. Byddai strategaeth i annog perchenogaeth ail gartrefi yn fwy addas"

"Hoffwn weld rhyw fath o ymgysylltiad rhwng perchenogion ail gartref a swyddogion ynghyd â chynghorwyr lleol i geisio gweld pa atyniadau y gellid eu hychwanegu at yr hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd er mwyn ceisio sicrhau fod pobl yn byw am gyfnodau hwy yn Ynys Môn"

"Rwy'n meddwl o ddifrif y dylech daro'n galed yr ail gartrefi sy'n wag y rhan fwyaf o'r amser. Gyda chymaint o ddigartrefedd, mae'n warthus ac mae'n lladd pentrefi bychain"

"Dyblwch y Band Treth ar gyfer ail gartrefi"

2.10 O ran y cynnig i .."**Adolygu'r holl ffioedd a phrisiau ar gyfer nifer o'n gwasanaethau megis canolfannau hamdden, prydau ysgol, gofal cartref, casgliadau gwastraff arbennig, parcio a'u cynyddu lle tybir eu bod yn rhy isel"** roedd 40% yn cytuno/cytuno'n gryf a 27% yn anghytuno/anghytuno'n gryf gyda 32% ddim yn cytuno nac yn anghytuno




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

*"Mae'r cynnydd mewn cyfyngiadau parcio sef cyfyngiadau o ran yr amser parcio a'r ffioedd yn golygu fod pobl yn gyndyn i fynd i'r Stryd Fawr i siopa"*

*"Beth yw eich cynllun i wasanaethau anstatudol godi ffioedd? Mae'n siwr eich bod eisoes wedi ymchwilio i hyn?"*

*"Rhaid i unrhyw gynnydd mewn ffioedd a'r dreth gyngor fod yn unol â chwyddiant a rhaid canolbwyntio hefyd ar y ffioedd hynny a godir mewn meysydd lle mae hynny'n wrthgynhyrchiol o ran y refeniw a gynhyrchir o gymharu â chost casglu'r arian. Efallai y bydd gwneud i ffwrdd â rhai ffioedd, yn arbennig mewn ardaloedd twristaidd yn annog mwy o ddefnydd ac yn caniatáu i chi godi refeniw mewn ffyrdd eraill megis cynnig consesiynau i ddarparwyr preifat redeg cyfleusterau"*

*"Dylai sicrhau fod gan eich cymunedau ffyrdd o gael yn iach, yn enwedig yng nghyd-destun y teulu, gael ei annog drwy ostwng ffioedd mynediad a cheisio codi arian drwy gynnal gweithgareddau ychwanegol"*


*" Rhaid cydbwyso unrhyw gynllunio i gynyddu ffioedd yn erbyn y pwysau sydd ar unigolion a theuluoedd ar hyn o bryd"*

*"Ffioedd uwch ar gyfer ceisiadau cynllunio ac ati yn seiliedig ar gost y datblygiad ac os ydyw ar gyfer cartref gwyliau/ail gartrefi (nodwch person lleol neu na ddylid eu defnyddio fel cartref gwyliau am dyweder ?? blynedd)"*

*"Preifateiddiwch y Canolfannau Hamdden"*

*"Mae lle i oddeutu 500 o geir yn y 4 maes parcio i staff yn Llangefni. Wrth godi isafswm o £2 y diwrnod, byddech yn gwneud incwm o £1000 yr wythnos. Os ydych chi o ddifrif am yr ymgynghoriad hwn, dylech ystyried hyn."*


2.11 Cafodd y cynnig i **.."Foderneiddio a symleiddio taliadau fel y byddai'n llawer haws talu mewn llefydd megis meysydd parcio a chanolfannau hamdden**" ei gefnogi gan 72% o ymatebwyr gydag ond 8% yn anghytuno/anghytuno'n gryf.




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

*"Gosodwch rwystrau ar feysydd parcio fel na fedr pobl barcio heb dalu"*

2.12 Roedd bron i 61% yn cytuno/cytuno'n gryf y dylem.."**Ddatblygu tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn ac yna, ostwng nifer y cartrefi gofal y mae'r Cyngor yn eu rhedeg"** a 19% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 19% yn anghytuno/anghytuno'n gryf.




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

*"Nid wyf yn gwybod digon am dai gofal ychwanegol ac o'r herwydd mae fy ateb yn un niwtral. Yn gyffredinol, mae'n edrych fel cynllun da"*

*"Codwch y ffioedd ond peidiwch â chau'r cartrefi gofal y mae'r Cyngor yn eu rhedeg"*


*"Trosglwyddo gofal preswyl i iechyd cyhoeddus"*

*"Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i ddarparu gofal o safon i bobl hŷn"*


*"Dylai darparu gofal o safon i gwrdd ag anghenion pobl fod yn flaenoriaeth bob amser yn achos Gofal i Bobl Hŷn. Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i reoleiddio safonau waeth bwy sydd biau'r gwasanaeth.*

*"Mae pobl hŷn yn derbyn gwell gofal mewn Cartrefi Gofal sy'n cael eu rhedeg yn dda ac sy'n effeithlon yn hytrach na threulio oriau ar eu pennau eu hunain yn eu cartrefi  ar adegau pan maent angen cymorth a rhywun i leddfu eu hunigrwydd"*

2.13 Roedd mwyafrif llethol (bron i 76%) o ymatebwyr hefyd yn cytuno gyda'r cynnig i **…"Cynyddu'r defnydd o dechnoleg y cartref fel gall pobl aros yn annibynnol am gyfnod hwyach"**




2.14 Dim ond 10% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno/anghytuno'n gryf gyda'r cynnig i **..''Adolygu nifer y llefydd sydd gennym mewn ysgolion yn erbyn nifer y llefydd yr ydym eu hangen mewn gwirionedd''** gyda 64% yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf





**Sylwadau'r Ymatebwyr:**


*"Mae'r angen am lefydd mewn ysgolion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn"*

*"Rwy'n teimlo hefyd y dylai'r Cyngor gadw'r ysgolion llai a pheidio â gorfodi pobl i fynd â'u plant i ysgolion sy'n bell ac rwy'n meddwl y câi'r plant addysg well pan mae mwy o amser yn cael eu dreulio arnynt, hynny yw, mewn dosbarthiadau llai"*

*"Ystyried defnyddio'r llefydd gweigion mewn ysgolion ar gyfer staff a gyflogir yn ganolog gan olygu y byddai llai o safleoedd i'w rheoli"*

2.15 Arweiniodd y cynnig i **..''Adolygu nifer y llyfrgelloedd yn seiliedig ar y nifer o bobl sy'n eu defnyddio"** at ymateb diddorol o ystyried mai Llyfrgelloedd oedd un o brif bynciau'r ymgynghori. Roedd 42% yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r cynnig ac roedd 31% yn anghytuno/anghytuno'n gryf gyda 25% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Fodd bynnag, petawn yn tynnu'r holiaduron a gylchredwyd yn y llyfrgelloedd o'r hafaliad, mae'r ffigyrau yn 55% yn cytuno/cytuno'n gryf, 27% ddim yn cytuno nac yn anghytuno a dim on 17% yn anghytuno/anghytuno'n gryf.




## Sylwadau Ymatebwyr:

"Dylai llyfrgelloedd olygu mwy na llyfrau a rhyngrwyd. Dylent fod yn gaffis cymunedol lle gall pobl gyfarfod"

"Cau POB llyfrgell y tu allan i'r trefi"

*"Credaf y bydd llyfrgelloedd yn bwysicach nag erioed i gymunedau lleol ac y dylid ymestyn eu horiau agor i gwrdd â'u hanghenion. Nid rhywle i fenthyca llyfrau yn unig yw'r llyfrgelloedd – maent yn adnodd pwysig ar gyfer grwpiau cymunedol, yn darparu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, gwasanaethau cymorth a gwybodaeth i ymwelwyr. Yn fy marn i, mae llyfrgelloedd yn llawer pwysicach na chwrs golff"*

*"Mae prinder adeiladau i gynnig gwasanaethau ac efallai mai'r llyfrgelloedd yw'r ateb. Hefyd, gellid ailfodelu'r llyfrgell deithiol i ganiatáu mynediad i'r rhyngrwyd fel y gall dinasyddion nad oes ganddynt fynediad iddi am ba reswm bynnag ei defnyddio"*

.

*“ Rwyf wedi cytuno gyda’r adolygiad o ran nifer y llyfrgelloedd, oherwydd byddai modd ail-leoli rhai o’r cyfleusterau hyn mewn siop un stop a allai letya cyfleusterau hamdden ac ati dan yr un to”*


*“Codi ar bobl i fynd i Oriel Môn, ymddengys nad yw’r toriadau byth yn cyffwrdd hon, dim ond llyfrgelloedd. Mae llyfrgelloedd yn fwy defnyddiol nag oriel gelf”*

*“Dymunaf i chi bob llwyddiant yn eich ymdrechion ond rwy’n gobeithio y bydd ein llyfrgell ni (Biwmares) yn parhau i ffynnu”*

*“Cyflwyno ffi fechan flynyddol ar gyfer defnyddio’r llyfrgelloedd – ac eithrio plant a myfyrwyr. Cyflwyno ffi i ddefnyddio cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd – gyda’r un amod â’r uchod*

*“Rwy’n meddwl bod Llyfrgelloedd yn hanfodol i’r gymuned ac mae angen eu hailfodelu’n gyfleusterau o fath hyb cymunedol”*

2.16 Roedd dros 51% yn cytuno gyda’r cynnig i ..”**Gweithio i allanoli rheolaeth ein hasedau treftadaeth ddiwylliannol”** gyda 32% pellach ddim yn cytuno nac yn anghytuno gyda’r cynnig ac ychydig dros 16% yn anghytuno/anghytuno’n gryf





**Sylwadau Ymatebwyr:**

*“ Dylid ystyried y modd yr ydym yn rheoli ein hasedau treftadaeth ddiwylliannol fesul achos. Mewn rhai meysydd, mae’n bur debygol y gellid dirprwyo rheolwyr i sefydliadau addas. Dylai’r Cyngor fod yn rheoli ei arian yn gadarn fel mater o drefn. Dylai unrhyw adolygiad o’r gwasanaethau cyfredol ganolbwyntio ar y meysydd gwariant uchaf a bod yn seiliedig ar ddulliau rheoli cadarn”*

*“cael madael ag Oriel Ynys Môn a gwerthu lluniau gwerthfawr, sef rhai Tunnicliffe”*

2.17 Roedd 51% o ymatebwyr hefyd yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r cynnig i .. "**Datblygu model lle mae gwasanaethau anstatudol yn cwrdd â'u costau drwy codi incwm ac / neu ostwng eu costau dros gyfnod o 2/3 blynedd"** gyda 31% ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 16% yn anghytuno/anghytuno'n gryf




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

"gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i leihau a rhannu costau"

## 2.18 Sylwadau Ychwanegol

Fel a nodwyd yn y rhagarweiniad, derbyniwyd nifer o sylwadau ansoddol yn ystod y broses ymgynghori - rhai drwy ebost neu lythyr a rhai drwy ymgysylltiad wyneb yn wyneb gydag ymatebwyr. Mae rhai o'r sylwadau sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r cynigion wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad (uchod) ac mae'r sylwadau ychwanegol isod yn cael eu cynnwys am eu bod yn groestoriad o'r math o ymatebion a dderbyniwyd a oedd naill ai a) yn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro neu b) yn ymatebion nad oeddynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion ond yn rhaid a oedd yn haeddu sylw ……

- Gostwng nifer yr Uwch Reolwyr, gormod ohonynt
- Gostwng absenoldeb salwch
- Llai o Gynghorwyr. Gostwng nifer y Cynghorwyr. Cynnal cyfarfodydd ar-lein.
- Cau'r swyddfa cofrestru etholiadol ar stad ddiwydiannol Llangefni a'i chyfuno gyda swyddfeydd y Cyngor yn y dref

- *Gellid rhoi'r gorau i wagio biniau gwyrdd ar gyfer gwastraff gardd rhwng Tachwedd a Mawrth oherwydd nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu defnyddio yn y cyfnod hwnnw.*
- *Credaf y dylai'r Cyngor ystyried cyfuno'n wirfoddol gyda Chyngor Gwynedd. Gallai hyn gynnig arbedion anferthol drwy ganoli gwasanaethau yn arbennig felly o ran caffael, rheoli a gweinyddu, cyllid a recriwtio.*
- *Pryderon ynghylch adeiladau gwag ar yr Ynys – pam ddim gwerthu'r rhain? Y Mân-ddaliadau – faint ohonynt sy'n wag ar hyn o bryd*
- *Gwagio biniau gwyrdd yn y gaeaf - oni fedrid gwneud hyn unwaith y mis? Yn lle hynny, gellid casglu eitemau o wastraff domestig nad ydynt fel arfer yn cael eu casglu (eitemau swmpus) am dri o fisoedd y gaeaf. Byddai hynny'n arbed arian o ran y gwasanaeth casglu gwastraff swmpus a roddir am ddim ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd.*
- *Nid yw'r targed ar gyfer torri costau staffio yn uchelgeisiol iawn, dim ond arbediad o £1M allan o gyfanswm costau staffio oddeutu £75M (60% o gyllideb y Cyngor), sef 1.3% yn unig. Rwy'n sicr y gellid gwneud mwy o arbedion yn hyn o beth.*
- *Byddai toriad o 10% ar gyfartaledd yn y costau staffio'n arbed oddeutu £7.5M. Efallai y gellid gwneud hynny'n fwy derbyniol drwy roi, dyweder, brynhawniau Gwener i ffwrdd i staff neu gyfatebol mewn gwyliau di-dâl yn ystod y flwyddyn.*
- *Credaf y byddai'n syniad da i bawb sy'n gweithio yn y cyngor dalu ffi flynyddol i barcio eu ceir. Byddai hyn yn creu incwm ac yn creu mwy o lecynnau parcio*
- *Adolygu'r Haen Uchaf o Reolwyr – a oes angen cymaint o reolwyr?*
- *Dylai'r Cyngor ostwng y cymhorthdal a rydd i lwybrau bysys - maent yn talu i fysys sy'n llawn aer gael eu cario o gwmpas yr Ynys*
- *Hyfforddi staff i fod yn weithwyr mwy generig – sefydliad ydyw, nid adran!*
- *Mae'r strategaeth yn sôn am fesurau effeithlonrwydd sylfaenol ond nid yw'n sôn am wella perfformiad staff neu adolygu cost uwch reolwyr, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau'n cynnal adolygiadau sylweddol o'u gwasanaethau cefn swyddfa. Beth am wneud gwell defnydd o'r dechnoleg yn y cyngor, digidol, newid sianel ac ati.*
- *Anfon gwaith papur allan mewn un iaith; gofyn i'r trethdalwyr pa iaith y maent ei heisiau*
- *Petai rhai (os nad y cyfan) o weithwyr y cyngor yn deall y pwysau sydd ar fusnesau bychain o ran llif arian, gwneud pethau'n gyflym, yn effeithlon ac yn iawn ac yn gweithredu hynny yn eu bywyd gwaith bob dydd (yr un modd â'r rhan fwyaf o weithwyr mewn Mentrau Bychain a Chanolig), yna rwy'n credu y byddai hynny o gymorth gyda'r targedau effeithlonrwydd.*
- *Ymddengys nad ydych yn "herio galw am wasanaethau" rhyw lawer iawn – lleihau'r galw am wasanaethau er gallai cynyddu'r costau gael yr effaith hon.*
- *Mae Medrwn Môn yn croesawu'r strategaeth effeithlonrwydd gyda'i gweledigaeth glir ar gyfer wynebu'r heriau ariannol. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i weithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau ac i ystyried yn ofalus yr hyn sy'n statudol ac yn anstatudol. Dylid dysgu gwersi o*

DRAFT

*drosglwyddo gwasanaethau megis Canolfan Biwmares a'r cynllunio gofalus a'r gefnogaeth gymunedol a gynigiwyd.*

- *Roedd cytundeb yn gyffredinol ynglŷn â'r mesurau perthnasol y gellid eu cymryd ... (Cangen Ynyd Môn – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig) ond dylai unigolion hefyd ysgrifennu ar wahân*

**Ymateb Cychwynnol y Cynghorau Tref a Chymuned (o'r Fforwm Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 23/10/14)**

- Trefniadau cydweithio – dylid gwneud mwy o waith gyda'r sector peifat er mwyn sicrhau arbedion (Trearddur).
- Gostwng cost democratiaeth – pwysigrwydd cryfhau democratiaeth a hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth leol (Llanfairpwll).
- Cael y gorau o'n staff – mae angen bod yn wyliadwrus o effaith bosibl diswyddiadau a pheidio â llenwi swyddi gweigion ar lefelau salwch staff (Llanfairpwll).
- Ymgynghori – angen sicrhau fod dulliau ymgynghori'r Cyngor yn gadarn (Llanfairpwll).
- Herio darparu gwasanaethau anstatudol – angen ymgysylltu gyda'r holl gydranddeiliaid cyn gynted ag sy'n bosibl ynghylch unrhyw doriadau mawr i wasanaethau anstatudol (Cwm Cadnant)

Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru – Tra'n cydnabod bod yr amserlen yn mynd y tu draw i'r cyfnod o dair blynedd y mae'r strategaeth effeithlonrwydd ddrafft yn ymwneud ag ef, pwysleisiwyd ei bod hi'n bwysig ymchwilio i oblygiadau posibl unrhyw fwriadau i gyfuno Cynghorau (Cwm Cadnant).

## 3. CASGLIAD

**3.1** Wrth ystyried y rhan fwyaf o'r cynigion/syniadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ar Strategaeth Effeithlonrwydd 2014 ynghyd â'r ymarfer blaenorol yr ymgymerwyd ag ef yn 2013, ymddengys bod yr ymateb cyffredinol yn arwydd o'r ffaith fod y Cyngor wedi cyflwyno opsiynau y mae dinasyddion Ynys Môn yn cytuno â nhw yn gyffredinol.

**3.2** Ac eithrio'r cynnig i godi'r Dreth Gyngor gan 5% bob blwyddyn, mae mwyafrif o drigolion Ynys Môn yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan ac o'r herwydd yn rhoddi mandad clir i'r Cyngor symud ymlaen i weithredu ar y cynigion sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.

DRAFT

DRAFT

## 1. Cyflwyniad

Mae pob sefydliad sector cyhoeddus yn wynebu'r angen i wneud arbedion mawr. Mae gan Ynys Môn gyllideb o £126m ac rydym yn amcangyfrif y byddwn angen arbed tua £15 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn ddisgrifiad o'n strategaeth effeithlonrwydd tair blynedd. Fe ddatblygwyd y strategaeth drwy gynnal trafodaeth eang gyda chynghorwyr a rheolwyr sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau a hefyd safbwyntiau staff.

Pwrpas y Strategaeth Effeithlonrwydd yw darparu cyfeiriad clir i ni dros y blynyddoedd nesaf a sicrhau dealltwriaeth ymysg y cyhoedd, staff a chynghorwyr ynglŷn â'r modd yr ydym yn bwriadu cwrdd â'n heriau ariannol. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y strategaeth yn ystod hydref 2014.

Mae wyth egwyddor yr ydym wedi eu mabwysiadu i yrru ein gwaith :-

- Sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws y cyngor cyfan yn darparu gwerth da o ran y modd yr ydym yn gwario arian
- Lleihau costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth i'r lefel sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth da
- Gweithio gydag eraill lle gall hyn arbed arian neu gadw gwasanaeth bychan, pwysig yn gweithio
- Sicrhau ein bod yn cael y gorau o'n staff
- Cynyddu incwm i'r cyngor
- Trawsnewid gwasanaethau y mae ymrwymiad cyfreithiol arnom i'w darparu er mwyn sicrhau eu bod yn fodern, yn effeithiol ac yn effeithlon
- Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol neu'n statudol lle mae eraill hefyd yn darparu'r rhain neu lle gallai eraill eu darparu
- Deall effaith ein cynigion ar Ynys Môn a'i thrigolion, yn arbennig y rheiny sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.

DRAFT

## 2. Yr Egwyddorion

### Gwneud yn siŵr bod y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws y Cyngor cyfan yn sicrhau gwerth da o ran y modd yr ydym yn gwario arian.

Fel sefydliad mawr sy'n gwario £36m yn prynu cyflenwadau, offer a rhedeg adeiladau rydym yn gwybod y gallwn arbed arian trwy wneud pethau mewn ffordd wahanol. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio o nifer o wahanol adeiladau a phob blwyddyn rydym yn prynu pethau fel halen i raeanu'r ffyrdd, blychau ailgylchu desgiau a chyfrifiaduron; a gwasanaethau fel bysus ysgol, casglu gwastraff a thrydan. Bydd rhai meysydd lle nad ydym yn cael y pris gorau posibl pan fyddwn yn prynu pethau.

Y syniadau sydd gennym i wneud arbedion yw :-

- Lleihau'r nifer o swyddfeydd, adeiladau ac asedau eraill yr ydym yn berchen arnynt, fel y cwrs golff
- Gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni yn ein hadeiladau a goleuadau stryd
- Lleihau costau hysbysebu, ni fydd swyddi yn awr ond yn cael eu hysbysebu ar ein gwefan neu mewn canolfannau gwaith oni bai eu bod ar gyfer rôl arbenigol iawn.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau, er enghraifft, drwy ddefnyddio E gatalogau a gwell trefniadau a rheoli contract.
- Ailgylchu offer a phapur drwy'r Cyngor cyfan yn hytrach na phrynu rhai newydd.
- Adolygu'r contractau presennol yn rheolaidd gyda golwg ar negodi gofynion effeithlonrwydd mewn contractau mawr tymor hir
- Byddwn yn moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn mireinio swyddogaethau cefn swyddfa lle mae angen hynny.

***Rydym yn amcangyfrif y bydd angen arbed mwy na £2m erbyn Mawrth 2017 trwy wneud y pethau hyn***

### Lleihau costau rheolaeth, democratiaeth a biwrocratiaeth

Fel Cyngor bychan mae angen i ni yn barhaol adolygu lefel ein costau rheoli a'n gorbenion, ac rydym yn gwybod bod gennym ormod o bapur yn symud o amgylch y Cyngor.

Rydym yn gwario tua £4.2m ar reoli, oddeutu £1.1m yn cefnogi aelodau a swm sylweddol ar bapur, argraffu ac ati. Ers Mai 2013, rydym eisoes wedi gwneud cynnydd gyda hyn drwy ddarparu technoleg tabledi i Gynghorwyr ar gyfer cyfathrebu trwy e-bost a phapurau pwyllgor electronig.

Yn ychwanegol at hyn mae gennym y syniadau a ganlyn ar gyfer gwneud mwy o arbedion yn y maes hwn :-



DRAFT

- Byddwn yn targedu lleihad mewn uwch reolwyr ac yn adolygu ein costau rheoli cyffredinol.
- Byddwn yn gwneud arbediad 10%-20% yn ein costau gweinyddol trwy gyflwyno dulliau electronig ar gyfer ein prosesau mewnol ac allanol. Er enghraifft, ffurflenni ymgeisio am swyddi, archebion ac anfonebau, ffurflenni treuliau a salwch ac ati.
- Byddwn yn annog y cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor trwy e-bost a byddwn yn ei gwneud yn bosibl i gael mynediad i'n gwasanaethau trwy ddefnyddio ein gwefan.
- Bydd biwrocratiaeth nad yw'n ychwanegu gwerth i'n gwaith yn dod i ben a bydd dulliau llyfn o weithio'n cael eu cyflwyno.
- Byddwn yn adolygu'r niferoedd o gyfarfodydd ffurfiol yr ydym yn eu cynnal a byddwn yn disgwyl i swyddogion ddefnyddio cyfrifiaduron yn hytrach na phapur a byddwn yn annog cynghorwyr i wneud hynny hefyd, gan e-bostio yn hytrach nag anfon llythyrau a chynadleddau fideo yn hytrach na theithio.

***Trwy wneud y pethau hyn, rydym yn amcangyfrif y bydd angen arbed dros £2m erbyn Mawrth 2017.***

**Trawsnewid gwasanaethau y mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i'w darparu er mwyn sicrhau eu bod yn rhai modern, effeithiol ac effeithlon.**

Rydym yn addo y byddwn yn parhau i flaenoriaethu gwasanaethau i bobl fregus fel plant sydd angen eu diogelu a'u hamddiffyn, gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn, ysgolion, tai a gwasanaethau eraill sydd gennym i'w darparu fel graeanu ffyrdd yn ystod y gaeaf.

Mae'r rhan fwyaf o'n harian yn cael ei wario ar wasanaethau y mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i'w darparu. Er enghraifft, allan o'r gyllideb o £126m, mae oddeutu £50m yn cael ei wario ar ysgolion ac addysg a £30m ar wasanaethau gofal cymdeithasol, ac y mae hynny yn 62% o gyllideb y Cyngor.

Fodd bynnag, mae llawer o'r gwasanaethau hyn angen eu diweddaru ac efallai nad ydynt mor effeithiol ac effeithlon ac y gallant fod. Rydym felly yn adolygu'r ffordd yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hyn a hefyd pa mor effeithlon yr ydym yn eu rhedeg.

Byddwn yn diweddaru ein gwasanaethau fel a ganlyn :-

- Moderneiddio'r ffordd y darperir gofal cymdeithasol i bobl hŷn trwy fentrau fel :-
    - Datblygu tai gofal ychwanegol i bobl hŷn ac wedi hynny leihau'r nifer o gartrefi gofal sydd yng ngofal y Cyngor.
    - Cynyddu'r defnydd o dechnoleg mewn cartrefi fel y gall pobl fyw'n annibynnol am gyfnod hwy ac o fewn amgylchedd diogel.
- Negodi gyda'r cwmnïau yr ydym yn prynu gofal ganddynt er mwyn sicrhau bod y pris yn un teg a'u bod yn gwybod hefyd bod angen iddynt fod yn effeithlon.
- Trwy ein Strategaeth Moderneiddio Ysgolion rydym yn adolygu'r nifer o lefydd sydd gennym yn yr ysgolion yn erbyn y nifer o lefydd yr ydym eu hangen mewn gwirionedd,

gan wneud yn siwr bod yr arian a roddir i ysgolion unigol yn adlewyrchu'r nifer o blant sydd ganddynt ac yn lleihau'r llefydd gweigion.

- Adolygu'r nifer o lyfrgelloedd yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n eu defnyddio. Byddwn yn ystyried a fyddai'n well cyfuno un neu ddwy ohonynt, rhywbeth a fyddai, tra'n lleihau costau, hefyd yn gallu arwain at ystod gwell o wasanaethau cymunedol.

***Rydym yn amcangyfrif y bydd angen erbyn Mawrth 2017 arbed mwy na £2m drwy wneud y pethau hyn.***

## Gweithio ar y cyd gydag eraill lle mae potensial i hynny arbed arian neu helpu i gynnal lefelau gwasanaeth.

Pan fyddwn yn edrych ar y DU yn gyfan, sir fechan iawn yw Ynys Môn. Mae hyn yn golygu bod yna rhai pethau y mae'n rhaid i ni eu cael fel uwch reolwyr, ein hadeiladau a'n hoffer ein hunain, a'r Cyngor ei hun sydd, oherwydd ein bod yn fychan yn gwneud cost y "gorbenion" yn uchel. Rydym yn gwybod y gall hyn ei gwneud yn ddrutach i redeg rhai o'n gwasanaethau ac y mae hefyd yn ei gwneud yn anodd darparu rhai gwasanaethau bychan.

Mae gennym syniadau, felly, i wneud arbedion drwy weithio gydag eraill yn y ffyrdd a ganlyn :-

- Rydym yn gweithio gyda'r pum Cyngor arall yng Ngogledd Cymru drwy Wasanaeth Gwella Ysgolion Gogledd Cymru a elwir GWE.
- Rydym hefyd yn gweithio gyda Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru ar brosiectau i sicrhau capasiti cael gwared ar wastraff am gost is nag y gallem ar ein pen ein hun.
- Byddwn hefyd yn ceisio adolygu ein gwasanaeth casglu gwastraff presennol.
- Rydym yn edrych hefyd ar brosiectau a mentrau eraill traws-gyngor lle gallai cyfuno adnoddau gynnig arbedion neu greu gwasanaethu mwy cynaliadwy. Er enghraifft, yng ngwasanaethau cymdeithasol yr ydym yn ymchwilio'r potensial o wneud hyn gyda Anableddau Dysgu.
- Rydym yn datblygu timau lleol ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd fydd yn lleihau dyblygu, yn cydleoli staff ac yn gwella cydlyniant rhwng y gwasanaethau hyn.

***Mae'n anodd ar hyn o bryd amcangyfrif yn llawn faint yr ydym yn ei gredu y byddwn yn ei gyflawni drwy weithio ar y cyd, oherwydd y bydd y gwaith hwn yn cymryd mwy o amser i'w ddatblygu. Â bod yn realistig, rydym yn credu bod angen i ni geisio gwneud arbedion o tua £3m yn y maes hwn erbyn Mawrth 2017.***

## Y gorau allan o'n staff

Ein staff yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr ac y mae tua 60% o'r arian yr ydym yn ei wario yn cael ei wario ar staff. Mae'n hanfodol, felly, ein bod yn gweithio gyda'n staff i'w galluogi hwy i berfformio hyd eithaf eu gallu. Yn ychwanegol at hyn, mae ein staff yn ymwybodol iawn o'r angen i gyfrannu at y drafodaeth effeithlonrwydd ac y mae nifer ohonynt wedi gwneud rhai awgrymiadau hynod o ddefnyddiol.

DRAFT

Dyma rywfaint o'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r syniadau sydd gennym :-

- Bydd pob aelod staff yn cael gwerthusiad perfformiad i sicrhau eu bod yn gweithio hyd orau eu gallu.
- Byddwn yn gwario o leia' £350,000 ar hyfforddi a datblygu ein staff.
- Byddwn yn gweithredu arfarniad swyddi i sicrhau tegwch o ran sut yr ydym yn gwobrwyo staff.
- Byddwn yn cyfathrebu â staff drwy Gyngor staff.
- Ar hyn o bryd, mae ein lefel salwch yn fwy na 12 niwrnod i bob aelod staff y flwyddyn. Y flwyddyn ddiwethaf, 2013/14, cymerodd ein staff gyfanswm o 28,811 i ddiwrnodau i ffwrdd yn sâl ac fe gostiodd hyn oddeutu £2m i'r Cyngor tra roeddent i ffwrdd o'r gwaith. Mae hyn yn un o'r cyfraddau uchaf ymysg Cynghorau yng Nghymru. Trwy wella'r modd yr ydym yn rheoli salwch, byddwn yn gweithio i leihau'r gyfradd hon a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.
- Byddwn yn gweithio ar strategaeth a chynllun i leihau'r nifer o staff asiantaeth a gyflogir fel y gallwn ddatblygu ein staff ein hunain.
- Bydd yr holl swyddi gwag yn cael eu hadolygu i weld a ydym angen penodi rhywun arall i'r swydd yn yr un modd neu a fedrir gwneud pethau mewn ffordd wahanol.
- Byddwn yn adolygu'r lefelau staffio a'r sgiliau i alinio gyda datblygu modelau darparu yn y dyfodol.
- Mae'n anorfod yn ystod cyfnod o anawsterau ariannol y bydd yn rhaid gwneud diswyddiadau. Byddwn yn ymchwilio i ddiswyddiadau gwirfoddol yn y lle cyntaf a byddwn bob amser yn ceisio ail-leoli aelodau staff sydd mewn risg o ddiweithdra i faes neu ardal arall o waith neu eu trosglwyddo hwy i sefydliadau sy'n barod i weithio mewn partneriaeth â ni er mwyn cadw arbenigedd a gwybodaeth yn flaenllaw yn ein darpariaeth o wasanaethau.

Trwy gydol y cyfan o'n mentrau, ein prif nod fydd datblygu a meithrin gweithlu proffesiynol a sgilgar sy'n cael ei werthfawrogi.

***Er bod y mentrau hyn yn ymwneud mwy â chael y gorau o'n staff, rydym yn rhagweld yr angen i wneud arbedion gwirioneddol yma hefyd. Yr ydym yn amcangyfrif yr angen i wneud oddeutu £1m yma.***

### I sicrhau ein bod yn gwneud defnydd effeithlon o'r cyfleon i gynhyrchu'r incwm mwyaf i'r Cyngor.

Mae'r arian yr ydym yn ei gael fel Cyngor yn dod o bedair prif ffynhonnell :-

- Llywodraeth Cymru o drethi cyffredinol
- Trigolion Ynys Môn o'r Dreth Gyngor
- Incwm arall fel y ffioedd yr ydym yn eu codi am wasanaethau a llog ar ein buddsoddiadau

DRAFT

- Grantiau o gyrff eraill fel Chwaraeon Cymru a'r Cyngor Celfyddydau, a grantiau adfywio economaidd o Ewrop.

Mae'r rhan fwyaf o'n harian yn dod o Lywodraeth Cymru a'r gostyngiad yn yr arian hwn yw'r rheswm pam mae'n rhaid i ni ddod o hyd i arbedion.

Felly, rydym yn bwriadu cadw a chynyddu ein hincwm fel a ganlyn :-

- Nid yw'n bosibl cynyddu'r Dreth Gyngor gan fwy na 5% neu fe fyddai Llywodraeth Cymru yn cymryd camau yn ein herbyn. Mae'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn yn weddol isel. Rydym felly wedi cynllunio yn seiliedig ar gynnydd blynyddol o 5% yn 2015/16 gyda bwriad i edrych ar gynyddu'r Dreth Gyngor i berchenogion ail gartrefi ar yr Ynys a chartrefi gwag.
- Mae ein cyfradd casglu ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn yn weddol uchel ar 97%, ond byddwn yn gweithio i gynyddu'r lefel hon lle mae hynny'n bosibl ac yn anelu at fod ag un o'r lefelau casglu gorau drwy Gymru gyfan.
- Byddwn yn codi tâl am nifer o'n gwasanaethau fel canolfannau hamdden, prydau ysgol, gofal cartref, casgliadau gwastraff arbennig, parcio ceir. Rydym yn adolygu'r cyfan o'n ffioedd a'n taliadau yn erbyn y gost o'u darparu a lle bernir eu bod yn rhy isel, byddwn yn eu cynyddu.
- Mae'n debygol y bydd grantiau yr ydym yn eu derbyn gan gyrff eraill yn lleihau o ganlyniad i'r cyfyngiad ar wariant. Byddwn, felly, angen gostwng yr hyn yr ydym yn ei wario i gyfateb i unrhyw ostyngiadau yn y grantiau yr ydym yn eu derbyn a bod â strategaethau ymadael clir ar gyfer grantiau sy'n tynnu at eu terfyn. Fe all hyn gael effaith ar wasanaethau fel hamdden a'r celfyddydau.
- Byddwn yn ceisio sicrhau'r swm mwyaf posibl o arian o Ewrop am brosiectau fydd yn cefnogi ac yn gwella ein cynlluniau ar gyfer Ynys Môn.
- Byddwn yn hyrwyddo ac yn cael gwared ar asedau nad ydym eu hangen mwyach mewn modd strwythuredig ac amserol a fydd yn ei dro yn cynyddu ein derbynion cyfalaf ar gyfer eu buddsoddi wedi hynny mewn meysydd sydd wedi eu nodi gennym yn ein cynllun corfforaethol 4 blynedd.
- Byddwn hefyd yn moderneiddio ac yn symleiddio taliadau fel ei bod yn llawer haws i gwsmeriaid allu talu mewn llefydd fel meysydd parcio a chanolfannau hamdden.

***Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif yr angen i sicrhau £1.3m ychwanegol y flwyddyn drwy gynyddu taliadau erbyn Mawrth 2017.***

## Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol nac yn statudol lle mae eraill hefyd yn eu darparu.

Mae yna nifer o bethau yr ydym yn eu gwneud fel Cyngor y mae eraill hefyd yn eu gwneud ac nad oes angen i ni eu gwneud. Er enghraifft canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon yn cynnwys y cwrs golff, canolfannau celf, rheoli adeiladu a rheoli pla (rhestr nad yw'n hollgynhwysol).

Rydym yn gwybod bod llawer ohonoch yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau a'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i'r sector cyhoeddus eu darparu ac mae'r sectorau preifat a

gwirfoddol yn rhedeg gwasanaethau fel hyn yn llwyddiannus iawn. Rydym yn codi tâl am y gwasanaethau hyn ond nid yw'r incwm yr ydym yn ei gael yn cyfateb i'r gost o'u rhedeg. Mae'r Cyngor felly yn noddi'r gwasanaethau hyn.

Byddwn, felly, yn gweithio i :-

- Allanoli'r gwaith o reoli ein hasedau treftadaeth ddiwylliannol.
- Yn datblygu model lle bo gwasanaethau anstatudol nad ydynt yn rhai hanfodol yn cwrdd â'u costau llawn drwy godi incwm ac/neu leihau costau dros gyfnod o ddwy i dair blynedd.
- Yn rhoi'r gorau i'w darparu os byddwn yn gweld bod darpariaeth ddigonol yn y sector preifat.
- Yn adeiladu ar ein cydweithrediad llwyddiannus ag Ymddiriedolaeth Canolfan Biwmares ac rydym yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector i weld sut y gallant hwy ein helpu ni i ddarparu ystod o wasanaethau yn y dyfodol fel gofal dydd ac opsiynau eraill gyda'n poblogaeth o oedolion.
- Edrych i weld a all cymunedau Ynys Môn (yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned) gymryd cyfrifoldeb am rai o'r mathau mwy lleol o wasanaethau fel caeau chwaraeon, parciau gwledig a thoiledau cyhoeddus.

Wrth wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod gennym ddulliau priodol ar gyfer ymgysylltu'n gynhwysfawr gyda chymunedau a phartneriaid er mwyn gallu casglu eu syniadau ynglŷn â pha gyfrifoldebau penodol y gellir eu datblygu ymhellach mewn dull cynaliadwy ar lefel leol, a phryd y gellid gwneud hynny.

***Rydym yn amcangyfrif bod angen i ni arbed oddeutu £1.5m y flwyddyn drwy ymchwilio i'r opsiynau hyn erbyn Mawrth 2017.***

**Er mwyn deall effaith y cynigion hyn ar Ynys Môn, y lle a'i drigolion, yn arbennig a rhai sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.**

Yr hyn fydd angen i ni ei wneud yn gyntaf yw ceisio lleihau swm yr arian yr ydym yn ei wario trwy ddileu gwastraff a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio heb ostwng lefelau'r gwasanaeth.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod na fydd gwneud hyn yn unig yn rhoi i ni'r lefel o arbedion rydym eu hangen. Felly'r peth nesaf y byddwn yn ei wneud yw edrych ar y syniadau fydd yn golygu newid i wasanaethau.

Byddwn yn edrych a fydd y newid yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a byddwn yn gofyn :-

- A yw'r gwasanaeth yn un sy'n cael ei defnyddio'n dda neu sy'n cael ei ddefnyddio i'w eithaf?
- A oes rhywun arall yn darparu'r gwasanaeth?

- Pe bai'r gwasanaeth ddim ar gael neu pe bai'n cael ei leihau beth fyddai'n digwydd i unigolion ac / neu gymunedau ?

Bydd penderfyniadau ynglŷn â gweithredu ar y syniad yn seiliedig ar yr atebion i'r cwestiynau hyn.

### Yr effaith ar staff

Ni yw'r cyflogwr mwyaf yn Ynys Môn gyda dros 3,000 o staff.  Mae'r ychydig flynyddoedd nesaf yn mynd i fod yn gyfnod anodd iawn iddynt, yr un modd â nifer o rai eraill sy'n byw yn y sir.

Mae staff wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud ac felly mae'n bwysig yn ystod y cyfnod hwn o newid ein bod yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddatblygiadau o ran ein syniadau a'n cynlluniau a'n bod hefyd yn eu cynnwys hwy'n uniongyrchol yn y trafodaethau.

Mae ein strategaeth 'Pobl' newydd yn fenter sy'n amlygu hyn ac mae'n nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud i hyfforddi, datblygu ac yn gwneud defnydd effeithiol o'n staff dros y cyfnod anodd hwn a'r tu draw hynny.

### Camau Nesaf

Gallai'r syniadau a'r camau hyn ddarparu arbedion o tua £12.5m i ni.  Mae hyn yn dal i fod rhyw £3m yn llai na'r lefel o arbedion yr ydym yn credu y byddwn angen eu gwneud dros y 3 blynedd nesaf.

Byddwn, felly, yn parhau i weithio i ddatblygu ein rhestr o syniadau a byddwn yn ymgynghori â chi bob blwyddyn gyda rhestr newydd a byddwn yn gadael i chwi wybod drwy gyhoeddi ein hadroddiad perfformio blynyddol pa mor dda yr ydym yn gwneud gyda chyflawni ein harbedion.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **15 RHAGFYR 2014** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2015-16** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H.E. JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>**Est. 2663**<br>**bhofi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

## 1. CEFNDIR

### 1.1 Penderfyniadau Blaenorol

**1.1.1** Roedd yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf yn diweddaru'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer Refeniw a'r rhagdybiaethau ar gyfer cyllideb 2015/16. Roedd yr adroddiad yn nodi'r bwlch cyllidebol yn seiliedig ar y setliad tebygol gan Lywodraeth Cymru a'r ffaith y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu diogelu. Cyfrifwyd y cyllidebau gros ar gyfer pob gwasanaeth a gofynnwyd iddynt wedyn ddatblygu cynigion ar gyfer targed arbedion o 10% a hynny'n seiliedig ar ragdybiaeth y byddai'r Cyllid Allanol Cyfun fel y rhagwelwyd.

**1.1.2** Roedd yr adroddiad ar y Gyllideb dyddiedig 14 Gorffennaf 2014 yn amlinellu'r egwyddorion sylfaenol a ganlyn ar gyfer sefydlu'r gyllideb ddigynnydd:-

- Mabwysiadu cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor;
- Cyfradd chwyddiant o 0% ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau;
- Cynnydd ar sail chwyddiant lle mae'n rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith neu trwy gontract ar gyfer trethi annomestig ac ati;
- Cynnydd o 5% mewn Ffioedd a Thaliadau;
- Newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed eisoes.

**1.1.3** Defnyddio cronfeydd wrth gefn. Cymerwyd na fydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gyllido'r gyllideb refeniw yn 2015/16.

### 1.2 Y Setliad Amodol i Lywodraeth Leol

**1.2.1** Cyhoeddwyd y setliad amodol ar gyfer llywodraeth leol gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 8 Hydref 2014.

**1.2.2** Roedd y gostyngiad trwy Gymru o -3.4% yn y Grant Cynnal Refeniw yn is na'r setliad o -4.5% a ragwelwyd. Y setliad amodol i Ynys Môn oedd gostyngiad o -3.9%. Mae hyn yn ostyngiad o £3.545m o ran refeniw, sef y gwahaniaeth rhwng £96.432m yn 2014/15 a'r setliad amodol o £92.887m yn 2015/16.

**1.2.3** Cyhoeddir y Setliad Terfynol ar 11 Rhagfyr 2014 ac, oherwydd na fydd y ffigyrau pendant ar gael tan hynny, fe all y sefyllfa ariannol newid gryn dipyn i'r hyn a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae hynny'n golygu efallai y bydd angen rhagor o arbedion effeithlonrwydd neu ddefnyddio cronfeydd refeniw wrth gefn. Bydd hynny'n cael ei ffactora i mewn i'r gyllideb derfynol a gynigir ym mis Chwefror 2015.

Mae yna nifer o drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r setliad. Nid yw'r manylion llawn ynghylch yr effaith ar Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbys hyd yma. Disgwylir manylion llawn yn y setliad terfynol ym mis Rhagfyr 2014 ond mae'r arwyddion fel a ganlyn:-

<u>Trosglwyddiadau Allan</u>

- Cyllid Myfyrwyr;
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (brigdoriad);
- Seicolegwyr Addysg (ar hyn o bryd brigdoriad i'w drosglwyddo allan);
- Rheoli Bwyd Anifeiliaid.

<u>Trosglwyddiadau i Mewn</u>

- Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd;
- Menter Benthyca Llywodraeth Leol;
- Grant Gofal Plant y tu allan i Ysgolion;
- Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig.

Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar y Grantiau, ond mae'r arwyddion cyntaf fel a ganlyn:-

- Grantiau Addysg yn cael eu cyfuno i greu un Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion;
- Gostyngiad o 7.5% yn y Grant Cefnogi Pobl;
- Gostyngiad o 3.0% yn y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy;
- Cynnydd o 15.2% yn y Grant Amddifadedd Disgyblion;
- Cynnydd o 10.1% yn y Grant Dechrau'n Deg;
- Cynnydd o 21.2% yn y Gronfa ar gyfer Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

## 2. CYLLIDEB REFENIW 2015/16

### 2.1 Y Gyllideb Ddigynnydd

**2.1.1** Mae Atodiad A yn dangos drafft o'r gyllideb refeniw ddigynnydd lefel uchel ar gyfer 2015/16. Mae'n cymryd cyllideb derfynol 2014/15 fel y pwynt cychwyn ac mae'n adlewyrchu symudiadau yn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn, trosglwyddiadau grant, symudiadau staffio, chwyddiant a newidiadau yr ymrwymwyd iddynt.

**2.1.2** Mae'r gyllideb ddigynnydd wedi cymryd i ystyriaeth y ffactorau a ddisgrifir yn 1.1.2 yn unol â'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith mis Gorffennaf 2014.

**2.1.3** Y prif newid o gymharu â'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith mis Gorffennaf yw'r cynnydd a ragwelir yn y tâl i weithwyr o 1% i 2.2%. Mae hynny'n cael effaith sylweddol ar y strategaeth.

**2.1.4** Mae'r gyllideb ddigynnydd hefyd wedi caniatáu ar gyfer:-

- Colli Incwm Grant Penodol
- Incrementau Staff
- Arbedion Trosiant Staff
- Cynnydd yn y Taliadau Blwydd-dal gan y Cyflogwr

**2.1.5** Cymerwyd newidiadau demograffig cyfyngedig i ystyriaeth hefyd. Ychydig o newid sydd yn nifer y disgyblion ar gyfer y flwyddyn. Ni fydd newid o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**2.1.6** Mae'r gyllideb ddigynnydd yn rhagdybio y llwyddir i gyflawni'r arbedion ar gyfer eleni.

**2.2 Risgiau a Digwyddiadau Annisgwyl**

**2.2.1** Mae yna nifer o risgiau allweddol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn 2015/16 a all gael effaith ar ei gyllid wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Ni ellir mesur maint y risgiau ar hyn o bryd ond maent yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:-

**2.2.2** Grantiau Penodol - ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, ychydig iawn o wybodaeth fanwl sydd ar gael ynghylch dyraniadau grant ar gyfer 2015/16. Mae'r sefyllfa ddigynnydd yn adlewyrchu rhai grantiau sydd ar lefel 2014/15 ar hyn o bryd. Bydd raid rheoli unrhyw ostyngiadau i grantiau yn 2015/16 trwy ostwng gwariant i'r un graddau – un ai'n uniongyrchol gysylltiedig â'r grant neu trwy rannau eraill o'r gyllideb. Mae'r cyllidebau incwm mewn perthynas â grantiau sydd wedi eu trosglwyddo i mewn fel rhan o'r setliad amodol wedi eu tynnu allan o'r gyllideb, ond effaith niwtral gafodd hyn ar y cyfan fel y crybwyllir yn 1.2 uchod.

**2.2.3** Mae'r gweithgareddau cyfredol mewn perthynas â'r orsaf niwclear arfaethedig a'r Rhaglen Ynys Ynni wedi cael sylw mewn cyllidebau blaenorol. Efallai y bydd angen eu diwygio o bryd i'w gilydd ac adolygir y pwysau ar y cyllidebau ar hyn o bryd.

**2.2.4** Yn aml mae ansicrwydd ynghylch cyllidebau arfaethedig oherwydd bod nifer o gontractau mawr wedi mynd allan i dendr. Y rheswm am hynny yw nad yw'r gwerth terfynol yn hysbys hyd nes y bydd yr ymarfer tendro wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, dim ond nifer fechan o gontractau fydd yn cael eu haildendro yn 2015/16 ac mae hynny wedi gostwng yr ansicrwydd felly.

**2.2.5** Mae'r gyllideb wrth gefn flynyddol ar gyfer y broses arfarnu swyddi a chostau cyflogaeth bellach yn £700k. Nid yw'r swm hwn wedi newid yn yr ychydig flynyddoedd ariannol diwethaf. Mae hynny'n adlewyrchu penderfyniad a wnaed yn 2010/11 i fwrw ymlaen i adolygu gweithwyr ar y cyflogau isaf. Mae mwy o waith wedi ei wneud bellach ar y broses Arfarnu Swyddi. Mae hon yn risg ariannol allweddol a bydd rhaid parhau i adolygu'r sefyllfa wrth i'r broses arfarnu ddod i ben. Er bod cronfeydd wrth gefn wedi tyfu dros nifer o flynyddoedd, nid yw canlyniad yr ymarfer yn hysbys ar hyn o bryd ac, o gofio gwahanol brofiadau awdurdodau eraill yn y DU, mae'n anodd ei asesu. Fodd bynnag, wrth adolygu cynlluniau a chostau eraill, mae'n debygol na fydd digon o arian yn y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd i'w weithredu'n llawn.

**2.2.6** Mae'r gronfa wrth gefn 'gyffredinol' yn cynnwys £500k ychwanegol i gwrdd ag unrhyw ansicrwydd wrth i'r broses gyllidebol fynd yn ei blaen. Dylid medru tynnu allan y brif ran o'r gronfa wrth gefn hon yng nghamau nesaf y rownd gyllidebol. Nid oes angen cronfa wrth gefn sylweddol ar gyfer contractau, ond bydd angen cronfa wrth gefn gyffredinol i ddelio gyda digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld yn ystod y flwyddyn.

**2.2.7** Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys cronfa wrth gefn o £190k yn bennaf ar gyfer gwariant unwaith ac am byth i gefnogi gweithgareddau gweithredu a pherfformio.

## 2.3 Y Bwlch Cyllidebol

**2.3.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r gyllideb ddigynnydd drafft fel sail ar gyfer cyllideb refeniw 2015/16.

**2.3.2** Yn seiliedig ar y ffigyrau yn y Setliad Amodol a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor.

| | **£'000** |
|---|---|
| Cyllid Allanol Cyfun | 92,887 |
| Y Dreth Gyngor | 30,988 |
| **Cyfanswm** | **123,875** |

**2.3.3** Y gyllideb ddigynnydd yw'r gyllideb cyn y bydd unrhyw dwf ychwanegol yn cael ei ystyried. Mae'r bwlch cyllidebol yn £4.081m yn seiliedig ar y sefyllfa ddigynnydd ddrafft gychwynnol.

**2.3.4** Mae'r bwlch yn seiliedig ar gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Isod ceir table sy'n nodi'r amryw lefelau o'r dreth gyngor a'r lefel o arbedion byddai angen ynghyd â'r effaith wythnosol ar eiddo band D.

| **%** | **Dreth Gyngor £** | **Arbedion Angenrheidiol** | **Effaith Wythnosol ar Fand D** | **Cyfanswm y Cost** |
|---|---|---|---|---|
| 5 | 30,988,000 | 4,080,801 | 1.2 | 25.2 |
| 4.75 | 30,914,000 | 4,154,801 | 1.14 | 25.14 |
| 4.5 | 30,840,000 | 4,228,801 | 1.08 | 25.08 |
| 4.25 | 30,766,000 | 4,302,801 | 1.02 | 25.02 |
| 4 | 30,766,000 | 4,302,801 | 0.96 | 24.96 |

**2.3.5** Roedd yr adroddiad ar y gyllideb mis Gorffennaf 2014 yn cynnwys rhagolwg lefel uchel yn dangos bwlch cyllidebol posib o £6.663m ar gyfer 2015/16. Nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw eitemau twf uwchben y twf demograffig a'r diogelwch a roddir i gyllidebau ysgolion. Y prif newidiadau yw:-

- Cynnydd yn y Dyfarniad Tâl i weithwyr;
- Cael gwared ar y diogelwch a roddwyd oni lwyddwyd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd y flwyddyn gynt;
- Cael gwared ar effaith Demograffi.

## 3. STRATEGAETH GYLLIDEBOL

### 3.1 Y Strategaeth Effeithlonrwydd

Fel rhan o fframwaith ar gyfer cynllunio gwasanaethau a'r gyllideb, mae strategaeth effeithlonrwydd wedi ei pharatoi yn awr yn seiliedig ar yr adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol a'r ddogfen Strategaeth Effeithlonrwydd. Mae'r strategaeth ar gyfer y tymor canol yn dwyn sylw at:-

- Ostwng costau rheoli, democrataidd a biwrocratiaeth;
- Cydweithio gydag eraill lle mae posibilrwydd i arbed arian neu i gynorthwyo i gynnal lefelau gwasanaeth;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau allan o'n staff;
- Sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i greu incwm ar gyfer y Cyngor;
- Trawsnewid gwasanaethau y mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni eu darparu er mwyn sicrhau eu bod yn fodern, yn effeithiol ac yn effeithlon;
- Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol a statudol lle mae pobl eraill hefyd yn eu darparu;
- Deall effaith y cynigion ar Ynys Môn a'i thrigolion, yn enwedig y rheini sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.

### 3.2 Cynigion Arbedion

**3.2.1** Y prif fater yn y strategaeth effeithlonrwydd, wrth gwrs, yw'r angen i wneud arbedion refeniw ar raddfa na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen, nid dim ond ar gyfer 2015/16 ond i'r dyfodol rhagweladwy hefyd. Mae'r cynigion a gyflwynwyd hyd yma gan y cyfadrannau yn gymysgedd o Arbedion, Effeithlonrwydd a Chynhyrchu Incwm.

**3.2.2** Ni fydd y targedau arbedion yn cael eu gweithredu'n gyfartal o angenrheidrwydd ar draws pob gwasanaeth, ond byddant yn adlewyrchu dewisiadau a blaenoriaethau gan y Pwyllgor Gwaith.

**3.2.3** Rhaglennwyd gweithdai ar gyfer yr holl Aelodau i drafod opsiynau yn y flwyddyn newydd.

**3.2.4** Mae'r cynigion ar gyfer arbedion a gyflwynwyd hyd yma yn cynnwys diswyddiadau a ragwelir.

**3.2.5** Bydd y rhan fwyaf o'r cynigion arbedion a gyflwynwyd hyd yma yn siŵr o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau i wahanol raddau a bydd raid ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau.

**3.2.6** Bydd y cynigion hefyd yn dibynnu ar amcanion y Pwyllgor Gwaith. Mae posibilrwydd na fydd yr holl gynigion a gyflwynwyd yn cael eu gweithredu. Mae angen gwirio rhai o'r cynigion ymhellach, nid yw rhai ohonynt yn newydd a bydd angen cymryd amser i gyflawni rhai. Mae cyfres o adolygiadau gwasanaeth yn digwydd ar draws y Cyngor ar hyn o bryd ac, i gyd-fynd â hynny, mae strategaeth effeithlonrwydd yn cael ei datblygu i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â thargedau cyllidebol dros y tair blynedd nesaf.

**3.2.7** Mae'n anochel y bydd rhai o'r cynigion arbedion hyn yn golygu gostyngiad yn nifer y staff. Efallai y bydd y gostyngiad hwn yn digwydd yn naturiol yn sgil staff yn cyrraedd oed ymddeol neu'n cael swyddi eraill. Mae'r cynigion arbedion ar hyn o bryd yn rhagdybio arbedion blwyddyn gyfan mewn perthynas â gostyngiadau staffio. Mae risg amseru yn gysylltiedig â'r rhain gan na fydd modd cyflawni'r arbedion llawn os nad yw niferoedd y staff wedi gostwng erbyn 1 Ebrill 2015. Mae'n debygol hefyd y bydd costau diswyddo hefyd. O'r herwydd, bydd angen sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer diswyddiadau ar raddfa debyg i honno a gymeradwywyd yng nghyllideb 2014/15.

**3.2.8** Cynigir gostwng cyfraniadau'r Trydydd Sector gan 5%.

**3.2.9** Argymhellir:-

- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2015/16 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.
- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith gynllunio i gwrdd â chostau diswyddo nad oes modd eu hosgoi neu gostau unwaith ac am byth sy'n gysylltiedig â gwneud arbedion heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

**3.3 Bidiau Twf a Phwysau**

**3.3.1** Nid oes unrhyw lwfans ar gyfer unrhyw Fidiau Twf.

**4. CYLLIDEBAU YSGOL**

**4.1** Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fwriad i barhau i ddiogelu cyllid ysgolion ar gyfer 2015/16. Pennwyd lefel y diogelwch ar 0.6%, neu gynnydd o £235k, yn seiliedig ar gyllideb o £39.09m ar gyfer 2014/15. Ar gyfer 2015/16, mae ysgolion yn wynebu costau pensiwn uwch a chynnydd mewn costau Band Eang yn sgil y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol.

**4.2** Mewn perthynas â chyllideb 2015/16, mae cyllidebau wedi eu pennu ar gyfer ysgolion gyda chyllid ar gyfer y dyfarniad tâl a'r costau pensiwn uwch. Mae hynny'n rhoi dyraniad o £39.42m. Fodd bynnag, yn y Fforwm Ysgolion a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2014, cyflwynwyd adroddiad i aelodau'r Fforwm gyda'r cynnig i weithredu arbedion effeithlonrwydd o rhwng £2m i £3m dros y tair blynedd nesaf.

**4.3** Ar gyfer 2015/16, os bydd y cynnydd yn y cyllid yn cael ei gyfyngu i 0.6%, byddai hynny'n gostwng cyllidebau ysgol i £339.32m. Byddai hynny'n golygu gostyngiad o £100k yn y gyllideb ar gyfer ysgolion.

**4.4** Sefydlwyd gweithgor ac arno Swyddog o'r Awdurdod Lleol a detholiad o Benaethiaid i roi sylw i'r arbedion effeithlonrwydd ychwanegol. Cylch gorchwyl y grŵp yw llunio strategaeth arbedion effeithlonrwydd ar gyfer ysgolion.

**5. MATERION AR GYFER PENDERFYNIAD**

**5.1** Nid yw cynnwys y Gyllideb wedi ei ragnodi, ond yn unol â gofynion yr amserlen mae'n rhaid cael cydweithrediad y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Cyngor Llawn os am fabwysiadu'r gyllideb ym mis Chwefror 2015.

**5.2** Mae gweithdy ar gyfer yr holl Aelodau wedi ei raglennu ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf i fynd trwy'r opsiynau ar gyfer arbedion.

**5.3** Mae'r adroddiad hwn wedi argymell:-

**(a)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r gyllideb ddigynnydd ddrafft fel sail ar gyfer cyllideb refeniw 2015/16;

**(b)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2015/16 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn;

**(c)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith gynllunio i gwrdd â chostau diswyddo nad oes modd eu hosgoi neu gostau unwaith ac am byth eraill sy'n gysylltiedig â gwneud arbedion heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r penderfyniad wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ymgynghoriad â'r Grwp Llywio ar y Gyllideb |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Adroddiad gan y Swyddog A151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A: Crynodeb o'r Gyllideb Ddigynnydd Ddrafft a'r Bwlch Cyllidebol
Atodiad B: Arbedion Effeithlonrwydd a Nodwyd

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## CRYNODEB O'R GYLLIDEB DDIGYNNYDD DDRAFFT A'R BWLCH CYLLIDEBOL

### Yn seiliedig ar Gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor

| **Cyfadran** | **Sefyllfa Ddigynnydd Ddrafft £** |
|---|---|
| Addysg Gydol Oes (Gan gynnwys Ysgolion) | 48,113,280 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 30,854,780 |
| Datblygu Cynaliadwy | 19,999,050 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 12,344,780 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,819,530 |
| Cyfreithiol a Gweinyddol | 2,667,970 |
| Ardollau | 3,219,600 |
| Cyllido Cyfalaf a Llog | 7,782,590 |
| Codi ar y CRT/TLLU | -357,767 |
| Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | -23,012 |
| **Cyfanswm** | **126,420,801** |
| Cronfa Wrth gefn ar gyfer Gwelliannau | 190,000 |
| Cronfa Wrth gefn Gyffredinol | 500,000 |
| Cronfa Wrth gefn ar gyfer Arfarnu Swyddi | 800,000 |
| **Is Gyfanswm – Cyllideb Ddigynnydd** | **127,910,801** |
| Cyflogau a Graddfeydd | 500,000 |
| Cronfa Wrth gefn – Costau Newid | 221,000 |
| Cymorth Dewisol tuag at y Dreth | 50,000 |
| **Cyfanswm Cyn Arbedion** | 128,681,801 |
| **Wedi ei Gyllido Gan:** | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 92,887,000 |
| Y Dreth Gyngor | 30,988,000 |
| Cytundeb Canlyniadau | 726,000 |
| **Cyfanswm** | 124,601,000 |
| **Bwlch Cyllidebol** | **4,080,801** |

**ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

**Gwerth Da am Arian**

| Arbedion Arfaethedig | Cyfanswm yr Arbedion Arfaethedig £'000 | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Rhoi’r gorau i ddefnyddio Cadeirydd Annibynnol ar gyfer y Panel Maethu a defnyddio Cadeirydd mewnol | 4.0 | Plant |
| Gostwng costau asiantaethau maethu annibynnol | 75.0 | Plant |
| Gostwng costau Lleoliadau Allsirol | 51.0 | Plant |
| CAMHS - Dod â’r trefniant cyfredol i ben | 38.0 | Plant |
| Arbedion Effeithlonrwydd – Trydydd Sector | 8.0 | Plant |
| Adolygu cyfraniad CSYM i’r Bartneriaeth Cyfiawnder Ieuenctid | 8.0 | Plant |
| Gostyngiad - Cyflenwadau a Gwasanaethau Cyffredinol | 3.0 | Cynllunio |
| Gostyngiad Cyfraniad Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 25.0 | Cynllunio |
| Effeithlonrwydd Llecynnau Agored, Cefn Gwlad ac Arfordir | 2.0 | Cynllunio |
| Gostyngiad Cyfraniad  Coed Cymru | 7.0 | Cynllunio |
| Gostyngiad yn Oriau Wardeiniaid – Tymhorol a Chymunedol | 5.0 | Cynllunio |
| Newid Aildendro Gwasanaethau Bws | 60.0 | Priffyrdd |
| Gostyngiad yng nghyllideb Goleuadau Priffyrdd | 100.0 | Priffyrdd |
| Gostyngiad yng nghyllideb Gwaith Priffyrdd | 414.0 | Priffyrdd |
| Gostyngiad yng nghyllideb Gwaith Arafu Traffig | 20.0 | Priffyrdd |
| Gostyngiad yng nghyllideb Strwythurau | 20.0 | Priffyrdd |
| Newidiadau cyflenwi Gwasanaethau Gwastraff Clinigol | 67.0 | Gwastraff |
| Colli swydd gwag tymor hir | 38.0 | Gwastraff |
| Gostwng Cyllideb Costau Tirlenwi | 75.0 | Gwastraff |
| Gostwng oriau ac arferion gweithio yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig | 80.0 | Gwastraff |
| Gostwng Casgliadau Gwastraff Swmpus o 2 i 1 | 60.0 | Gwastraff |
| Gostyngiad yng nghyllideb Gwella Safonau Ysgol | 43.4 | Addysg |
| Newidiadau cyflenwi Gwasanaeth Allgymorth sy’n rhan o’r Gwasanaeth Ieuenctid | 16.3 | Addysg |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – Symud swyddfeydd | 1.9 | Diwylliant |
| Diwylliant – Gostyngiad yn y llinellau yn y gyllideb ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau | 2.0 | Diwylliant |
| Archifau – Rhesymoli’r Gyllideb | 1.7 | Diwylliant |
| Archifau – Contract glanhau | 2.3 | Diwylliant |
| Treftadaeth – Gostyngiadau yng nghyllideb gyffredinol ar gyfer amgueddfeydd | 4.6 | Diwylliant |
| Treftadaeth – Gostyngiadau yng nghyllideb Celfyddydau Cymunedol | 1.1 | Diwylliant |
| Gostyngiad yn y dyraniad i Grantiau i’r celfyddydau | 10.7 | Diwylliant |
| **CYFANSWM** | **1,244** | |

## Her barhaus o’r gwasanaethau

| Arbedion Arfaethedig | Cyfanswm yr Arbedion Arfaethedig £’000 | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Gostyngiadau yng nghyllideb Gweithredol Cyffredinol Hamdden | 3.0 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyfraniad Datblygiad Chwaraeon i’r Gemau Ynysoedd | 3.0 | AE + Ch |
| Dileu swydd Datblygu Chwaraeon | 8.0 | AE + Ch |
| Cyfraniad Cyllideb Grant Cyd-gysylltydd NERS | 6.0 | AE + Ch |
| Rhesymoli staff caffi Amlwch | 9.3 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyllideb staff achlysurol Canolfan Hamdden Caergybi | 10.0 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyllideb gweithredol – Twristiaeth | 53.0 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyllideb gweithredol – Marchnata | 2.0 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyllideb gweithredol – Prosiectau Ewropeaidd | 13.0 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyllidebgweithredol – Uned Ewropeaidd | 2.0 | AE + Ch |
| Gostyngiad yng nghyllideb Glanhau Strydoedd | 206.0 | Gwastraff |
| Gostyngiad yng ngrantiau’r celfyddydau | 2.6 | Addysg |
| Gostyngiad yng nghyllideb digonolrwydd gofal plant | 6.0 | Addysg |
| Gwasanaeth Cwnsela – gostyngiad yn y cyfraniad | 9.0 | Addysg |
| Gostyngiad 10% yn y cyfraniad i’r Cyd-bwyllgor AAA | 93.0 | Addysg |
| Gostyngiad lleoliadau allsirol | 80.0 | Addysg |
| Gostyngiad yng nghyllideb Dyslecsia Cynradd | 27.2 | Addysg |
| Gostyngiad yng nghyfraniad Grant URDD | 21.0 | Addysg |
| Gostyngiad yng nghyfraniad Grant Ffermwyr Ifanc | 21.0 | Addysg |
| Gostwng cyfraniad i’r Gwasanaeth Cerddoriaeth William Mathias | 23.6 | Addysg |
| Llynnon – gostyngiad yn llinellau cyllideb | 3.0 | Diwylliant |
| Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu – gostyngiad yn oriau gweinyddol | 9.0 | Diwylliant |
| **CYFANSWM** | **610.7** | |

## Gostwng costau Rheoli, Democratiaeth a Biwrocratiaeth

| Arbedion Arfaethedig | Cyfanswm yr Arbedion Arfaethedig £’000 | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Arbedion ar gostau papur, costau argraffu a chostau postio copïau caled o gofnodion a rhaglenni yn yr Adain Bwyllgorau | 25.0 | Busnes y Cyngor |
| Gostyngiad yng nghyllideb Weithredol – Gweinyddiaeth | 11.0 | AE&Ch |
| Gostyngiad yng nghyllideb Weithredol – Cymorth i Fusnes | 1.0 | Ae&Ch |
| Rhesymoli staff | 150.0 | Priffyrdd |
| Archifau – Rhesymoli staff | 8.0 | Diwylliant |
| Archifau - Cyfraniad ymddeoliad cynnar yn dod i ben | 4.5 | Diwylliant |
| Gwasanaeth Llyfrgelloedd – Gostyngiadau staff | 15.0 | Diwylliant |
| Amgueddfeydd – Rhesymoli staff: Yr Oriel | 25.0 | Diwylliant |
| Amgueddfeydd – Rhesymoli staff: Yr Oriel | 15.3 | Diwylliant |
| Gostyngiadau Staffio | 22.6 | Archwilio |
| Gostyngiadau Staffio | 50.0 | Trawsnewid |
| Rhesymoli Staffio | 74.4 | Hamdden |
| Rhesymoli Staffio | 92.7 | AE&Ch |
| Cael gwared o linellau cyllideb cyffredinol heb eu defnyddio | 200.0 | Oedolion |
| Cael gwared ar swydd wag | 54.0 | TGCh |
| Prosiect Gweithio’n Gallach | 300.0 | |
| Rhesymoli Yr Uwch Dim | 300.0 | |
| **CYFANSWM** | **1,348** | |

**Gweithio ar y cyd ag Eraill i arbed arian neu cynnal lefelau gwasanaeth**

| Arbedion Arfaethedig | Cyfanswm yr Arbedion Arfaethedig £'000 | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Incwm Ffi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | 10.0 | Cynllunio |
| Gostyngiad yng Nghyllideb Safecote | 25.0 | Priffyrdd |
| Gweithio ar y Cyd | 50.0 | Gwastraff |
| **CYFANSWM** | 85.0 | |

**Macsemeiddio Cynhyrchu Incwm**

| Arbedion Arfaethedig | Cyfanswm yr Arbedion Arfaethedig £'000 | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Cynhyrchu incwm gofal gwell Môn | 10.0 | Oedolion |
| Creu cyllideb incwm ar gyfer taliadau gohiriedig gofal | 127.0 | Oedolion |
| Gostyngiad cyffredinol i linellau cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau | 2.0 | Tai |
| Ymarfeirion tendro | 65.0 | Adnoddau |
| Costau cardiau credyd | 16.0 | Adnoddau |
| Incwm Cyffredinol Canolfan Hamdden Amlwch | 32.0 | E, C ac A |
| Incwm Cyffredinol Canolfan Hamdden Caergybi | 25.0 | E, C ac A |
| Incwm Cyffredinol Canolfan Hamdden Plas Arthur | 34.0 | E, C ac A |
| Incwm Cyffredinol Canolfan Hamdden David Hughes | 4.4 | E, C ac A |
| Debyd uniongyrchol corfforaethol canolfan hamdden | 4.0 | E, C ac A |
| Gwerthiannau peiriannau gwerthu canolfan hamdden (2 newydd) | 6.5 | E, C ac A |
| Adolygu incwm wedi ei amgàu ar gyfer mân-ddaliadau | 36.0 | Eiddo |
| Cynnydd yn incwm net parcio | 40.0 | Priffyrdd |
| Gwerthu gwastraff gwyrdd | 75.0 | Gwastraff |
| Cost amnewid biniau du | 50.0 | Gwastraff |
| Brecwast ysgol am ddim - cyflwyno ffi i ddisgyblion nad ydynt yn derbyn Prydau Ysgol am ddim | 171.0 | Addysg |
| Cynyddu rent tai Gofalwyr | 4.0 | Addysg |
| Cynyddu ffioedd ar gyfer teithio Ôl 16 a chodi am ddisgyblion Ôl 16 yn ysgolion | 50.0 | Addysg |
| Amgueddfeydd – cynhyrchu incwm – gweithgareddau paranormal yng Ngharchar Biwmares | 4.8 | Diwylliant |
| **CYFANSWM** | **756.7** | |

**Y Gorau allan o'n Staff**

| Arbedion Arfaethedig | Cyfanswm yr Arbedion Arfaethedig £'000 | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Cael gwared o'r gyllideb Lwfansau Car | 20.3 | Tai |
| Secondiad aelod o staff | 13.0 | Tai |
| Gostyngiad yn Lwfansau Car | 3.0 | TG Ch |
| Gostyngiad yn Lwfansau Car | 3.0 | AD |
| **CYSANSWM** | 39.3 | |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **15 RHAGFYR 2014** |
| **PWNC:** | **BIDIAU CYFALAF 2015/16** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG SY'N ARWAIN:** | **GARETH ROBERTS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (EST: 2601)** |

**Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau:**

Fel y gall y Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am gynllunio Bidiau Cyfalaf ar gyfer 2015/16 ar lefel gorfforaethol.

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. CEFNDIR**

**1.1** Ceir yma restr o'r Bidiau Cyfalaf a gynigiwyd gan yr adrannau ar gyfer eu cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2015/16 i 2019/20.

**2. CYNNYDD**

**2.1** Yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2014 yn nodi'r Strategaeth Gyfalaf, gofynnwyd i'r adrannau gyflwyno bidiau ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd.

**2.2** Cafwyd ymateb llawer mwy na'r disgwyl ac mae'r rhestr lawn o'r ceisiadau a dderbyniwyd wedi eu hamlinellu yn Atodiad A.

**2.3** Adolygwyd pob bid o ran cyfanrwydd ac yna cawsant eu blaenoriaethu yn ôl cyfres o feini prawf yn seiliedig ar bwyntiau, fel y nodir yn Atodiad B.

**2.4** Paratowyd amcangyfrif o'r adnoddau cyfalaf a oedd ar gael (Atodiad C) a chymharwyd y rhestr o fidiau yn erbyn yr amcangyfrif hwnnw. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, cynigir bod yr eitemau sydd yn y blychau lliw yn Atodiad A yn cael eu cynnwys yn rhaglen gyfalaf 2015/16. Bydd bidiau a fydd yn cael eu cynnwys yn y dyfodol yn dibynnu ar yr adnoddau a fydd ar gael ar yr adeg briodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd cynnwys prosiectau ar gyfer 2015/16 yn cael effaith o ran ymrwymiad ar flynyddoedd yn y dyfodol.

**3. MATER I'W BENDERFYNU ARNO**

**3.1** Mae'r adroddiad hwn yn argymell -

Bod yr eitemau sydd yn y blychau lliw yn Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth £14,480m) yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16 i 2019/20.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn benderfyniad sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Yndw

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | Ymgynghoriad â'r Grwp Llywio a'r y Gyllideb |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | Adroddiad y Swyddog Adran 90151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A: Crynodeb o Fidiau Cyfalaf 2015/16<br>Atodiad B: Matrics Sgorio<br>Atodiad C: Adnoddau Cyfalaf | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| | | |

# ATODIAD A

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | Pwysoliad | 30 | 20 | 15 | 10 | 20 | 5 | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Meini prawf sgorio (pwyntiau o 0-10) | | | | | | |
| Cyfeirnod | Cyfadran | Adran | Cyfeirnod Cyfalaf | Ranc Gwreiddiol | Ranc wedi ei Bwysoli | Cynllun Treigl / Unwaith ac am Byth | Cynllun arfaethedig | Disgrifiad Cryno | 2015/16 Cost Bl 1 (£'000) | 2016/17 Cost Bl 2 (£'000) | 2017/18 Cost Bl3 (£'000) | 2018/19 Cost Bl 4 (£'000) | 2019/20 Cost Bl 5 (£'000) | Grant | Cyllid net gan CSYM 2015/16 (£'000) | Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi | Y rhan o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi | Cyfraniad y prosiect at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol | Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru | Y gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DGA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed | Cadernid y trefniadau rheoli prosiect | Cyfanswm |
| 1 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 1 | 7 | 8 | Unwaith ac am byth | Ysgol Newydd yng Nghaergybi | Rhan o'r Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif lle bydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yng Nghaergybi yn lle tair o'r ysgolion cyfredol. Bydd rhywfaint o wariant yn 2014/15. Mae'n rhan o 'Wella Addysg, sgiliau a moderneiddio ein hysgolion' | 5,728 | 2,276 | 119 | | | Grant 50% ar gael gan LIC | 2,864 | C | Darparu dwy o ysgolion cynradd ardal newydd | 300 | 0 | 30 | 50 | 140 | 50 | **570** |
| 2 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 2 | 8 | 9 | Unwaith ac am byth | Ysgol Newydd ar gyfer Gogledd Orllewin Môn | Rhan o'r Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif lle bydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yng Ngogledd Orllewin Môn. Bydd rhywfaint o wariant ar hyn yn 2014/15. Mae'n rhan o 'Wella Addysg, sgiliau a moderneiddio ein hysgolion' | 3,431 | 1,119 | 64 | | | Grant 50% ar gael gan LIC | 1,716 | C | Darparu dwy o ysgolion cynradd ardal newydd | 300 | 0 | 30 | 50 | 140 | 50 | **570** |
| 3 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | 16 | 4 | 4 | Unwaith ac am byth | Lliniaru Llifogydd ym Miwmares | Biwmares yn dioddef llifogydd -yn digwydd yn fwy aml ac yn fwy difrifol. Y prosiect eisoes wedi ei gymeradwyo gyda'r gwaith dylunio yn cychwyn yn 2013/14, ac yn cael cyllid gan LIC yn barod. | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 | ond heb ei dderbyn eto, os caiff ei dderbyn, bydd angen i CSYM gyfrannu £135k | 135 | B | Gweithio gyda LIC i gryfhau a chefnogi cwmniau lleol | 300 | 140 | 0 | 85 | 100 | 25 | **650** |
| 4 | Cymuned | Gwasanaethau Oedolion | 15 | 1 | 1 | Unwaith ac am byth | Tai Gofal Ychwanegol yn Amlwch a Llangefni | Cefnogi'r mwyaf bregus drwy drawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn. Cynllun i ddatblygu a sefydlu 2 o gynlluniau Tai Gofal Ychwanegol. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Cyllid Allanol | I'w gadarnhau | A | Datblygu a sefydlu dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol gyda phartneriaid yn ne a chanolbarth yr Ynys. | 300 | 100 | 75 | 0 | 200 | 50 | **725** |
| 5 | Cymuned | Tai | 13 | 2 | 2 | Dim Rhaglen - Ad Hoc | Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Darparu cymorth i bobl drefnu addasiadau i'w cartref er mwyn eu gwneud yn saffach ac yn fwy cyfforddus. Mae'r GAC yn grant mandadol o hyd at £36k ac mae'r Cyngor yn derbyn 180 o ymholiadau y flwyddyn gydag oddeutu 120 yn cael eu cymeradwyo am grant. | 816 | 816 | 816 | 816 | 816 | 0 | 816 | D | Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor ar fudd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth | 300 | 0 | 150 | 0 | 200 | 40 | **690** |
| 6 | Cymuned | Tai | 41 | 6 | 3 | Unwaith ac am byth | Prynu trwy Orfodaeth - Cynllun Peilot | Mae'r Swyddog Tai Gwag yn gofyn am arian i sefydlu cynllun peilot i brynu drwy orfodaeth eiddo y mae wedi eu dewis yn ofalus o nifer o dai problemus sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir a lle mae trafodaethau gyda'r perchenogion wedi methu | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 180 | D | Cynyddu'r opsiynau tai fforddiadwy ar hyd a lled yr ynys a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd | 300 | 0 | 150 | 0 | 200 | 25 | **675** |
| 7 | Dirprwy Brif Weithredwr | Trawsnewid Corfforaethol | 39 | 5 | 5 | Unwaith ac am byth | Gweithio'n Gallach | Mae Gweithio'n Gallach yn ffitio i mewn i fframwaith nifer o strategaethau busnes a chyfrifoldebau corfforaethol eraill yn y sefydliad. Mae rhai o'r rhain, er enghraifft ein Strategaeth Effeithlonrwydd yn un o'r prif yrwyr ar gyfer Gweithio'n Gallach a bydd rhai'n defnyddio Gweithio'n Gallach i ddarparu achos ar gyfer newid yn unol ag anghenion gweithredol y presennol a'r dyfodol. | 1,125 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,125 | F | Archwilio ansawdd yr adeiladau gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir | 300 | 100 | 0 | 0 | 200 | 50 | **650** |
| 8 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a GwasanaethauTechnegol | 24 | 3 | 6 | Wedi ei raglennu ar gyfer 2015/16, dim rhaglen eto ar gyfer 2016/17 ymlaen | Cerbydau newydd | Cael cerbydau newydd, e.e. Bysus, HGV, ceir a faniau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd. Nid yw'r gronfa wedi cael ei defnyddio yn y gorffennol i brynu cerbydau ar gyfer gwasanaethau sydd â chyllidebau penodol sy'n cael eu gwarchod, e.e. Tai ac Ysgolion. Yn gyffredinol, bu diffyg cynllunio i andewyddu'r fflyd a bydd hyn yn rhan o raglen adnewyddu. | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 0 | 150 | Blaenoriaeth Gwasanaeth | | 150 | 200 | 150 | 0 | 100 | 40 | **640** |
| 9 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 6 | 9 | 7 | Rhaglen Dreigl gydag amserlen ynghlwm | Lleihau'r risg o dân yn adeiladau'r Cyngor | Rhagofalon mewn ysgolion i leihau'r risgiau tân. Cynnau tanau'n fwriadol yn debygol iawn mewn ysgol. Rhagofalon tân mewn ysgolion yn cynnwys drysau tân, waliau solet, larymau tân, goleuadau argyfwng, diangfeydd a systemau chwistrellu dŵr. | 150 | 150 | 150 | 125 | 0 | 0 | 150 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 200 | 150 | 0 | 0 | 30 | **620** |
| 10 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | 18 | 20 | 20 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Menter Bethyca Pwyllgor ar gyfer y Sir | Gwella ffyrdd ar yr Ynys. Daw'r LGBI i ben yn 2014/15, a chydag ychwaneg o doriadau refeniw, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu cwrdd â gofynion sylfaenol y contract a byddai'n torri amodau dau gontract oherwydd mae gan y Cyngor ddau gontract cynnal a chadw tymor hir gyda phartneriaid. | 2,000 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | B | Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau p ran yr isadeiledd fely gellir datblygu, budsoddi a chreu swyddi | 120 | 200 | 100 | 0 | 150 | 50 | **620** |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **IS-GYFANSWM** | | | | | | | | **14,480** | **6,511** | **1,299** | **1,091** | **966** | **0** | **9,136** | | | | | | | | | |

| Cyfeirnod | Cyfadran | Adran | Cyfeirnod Cyfalaf | Ranc Gwreiddiol | Ranc wedi ei Bwysoli | Cynllun Treigl / Unwaith ac am Byth | Cynllun arfaethedig | Disgrifiad Cryno | 2015/16 Cost Bl 1 (£'000) | 2016/17 Cost Bl 2 (£'000) | 2017/18 Cost Bl3 (£'000) | 2018/19 Cost Bl 4 (£'000) | 2019/20 Cost Bl 5 (£'000) | Grant | Cyllid net gan CSYM 2015/16 (£'000) | Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi | Y rhan o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi | Cyfraniad y prosiect at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol | Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru | Y gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DGA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed | Cadernid y trefniadau rheoli prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | | | | Unwaith ac am byth | 3 Ysgol Newydd ar Ynys Môn | 3 o ysgolion 21ain ganrif eraill gydag ymrwymiadau yn 2015/16. Dim Bid Gyfalaf wedi ei chyflwyno ond mae ymrwymiad i CSYM | 1,442 | 1,110 | 8,235 | 3,634 | 174 | Grant 50% ar gael gan LIC | 721 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | | | | | | | |
| 12 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 26 | 10 | 10 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Mynediad i'r Anabl | Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldebau, rhaid i'r awdurdod wneud addasiadau rhesymol i eiddo'r Awdurdod. Rhaid gwneud gwaith i sicrhau fod gan bobl anabl fynediad i wasanaethau | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 0 | 150 | F | | 240 | 140 | 150 | 0 | 0 | 35 | **565** |
| 13 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 7 | 11 | 11 | Rhaglen Dreigl gydag amserlen ynghlwm | Adolygu Adeiladau Addysg | Rhaglen i ailweirio ysgolion sydd yn risg uchel. Yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989, rhaid cymryd rhagofalon yn erbyn y perygl y risg o farwolaeth neu anaf personol oherwydd trydan yng ngweithgareddau ysgolion. Rhaid rhoi profion ar yr holl ysgolion dros 5 mlynedd, bydd angen gwneud mân-waith mewn rhai a bydd angen ailweirio eraill yn gyfan gwbl. | 250 | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 250 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 140 | 150 | 0 | 0 | 30 | **560** |
| 14 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 4 | 12 | 12 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Dm mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysg | Gwella mynediad I'r anabl mewn gwahanol ysgolion er mwyn cydymffurfio gydag Deddf Cydraddoldebau 2010 er mwyn cwrdd ag anghenion rhai disgyblion anabl | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 | 0 | 300 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 140 | 150 | 0 | 0 | 30 | **560** |
| 15 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 9 | 13 | 13 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Cyfleusterau Arlwyo Ysgolion | Adnewyddu'r potai presennol, uwchraddio'r systemau awyru mewn ceginau i gwrdd â'r gofynion. Petai cantîn ysgol yn cau, byddai'n rhaid anfon y plant adref a tharfu ar eu haddysg ac ar eu rhieni. | 200 | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 100 | 150 | 0 | 40 | 30 | **560** |
| 16 | Dirprwy Brif Weithredwr | ICT | 38 | 14 | 14 | Unwaith ac am byth | Cyfleuster TGCh Wrth Gefn ar y Safle | Datgelodd archwiliad nad oedd y system wrth gefn yn addas i'r pwrpas ac yn peri risg i'r Cyngor. Yn dilyn yr archwiliad, comisiynodd y cyn Swyddog Adran 151 Mazars i baratoi papur opsiynau ar gyfer system newydd a fyddai'n cwrdd gofynion darpariaeth wrth gefn y Cyngor. Cyflwynwyd y papur opsiynau i'r UDA a benderfynodd ar yr opsiwn o system wrth gefn gynhwysfawr oddi ar y safle, yn anffodus nid oedd y costau yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Mazars wedi cymryd i ystyriaeth ofynion cyfleuster o'r fath nad oeddynt yn rhaid TGCh. | 42 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 42 | G | | 300 | 200 | 0 | 0 | 0 | 50 | **550** |
| 17 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 8 | 15 | 15 | Rhaglen Dreigl gydag amserlen ynghlwm | Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw mewn Ysgolion | Rhoi sylw i'r diffygion yn yr holl adeiladau nad ydynt yn cael eu heffeithio gan y cynllun ad-drefnu ysgolion. Mae cyflwr y stoc ysgolion yn anfoddhaol - mae toeau yn gollwng, ffenestri wedi pydru a dim yn agor, problemau tamprwydd a risgiau eraill i iechyd a diogelwch. | 1,800 | 1,800 | 1,800 | 1,800 | 1,800 | 0 | 1,800 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 120 | 150 | 0 | 0 | 30 | **540** |
| 18 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 5 | 16 | 16 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Risg syrthio o uchder | Mae ysgolion gyda thoeau fflat a hen ffenestri yn y to gyda gwydr nad yw'n wydr diogelwch yn peri risg sylweddol i gontractwyr sy'n wneud gwaith, i syrfewyr a thresbaswyr a gellid erlyn yr awdurdod petai modd profi yr achoswyd niwed oherwydd diffyg cydymffurfiaeth gyda safonau. Mae angen sefydlu rhaglen er mwyn darparu llefydd diogel i weithio ac adnewyddu ffenestri yn y to yn ôl yr angen. | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 0 | 50 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 120 | 150 | 0 | 0 | 30 | **540** |
| 19 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 10 | 17 | 17 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Adnewyddu toiledau yn yst ysgolion | Mewn archwiliad yn 2013, datgelwyd bod toiledau ysgolion mewn cyflewr gwael ac angen eu gwella. Mewn rhai achosion, mae plant yn gwrthod defnyddio'r toiledau oherwydd nad ydynt yn lân. Mae'r fid hon ar gyfer darparu cyfleusterau newydd mewn ysgolion sy'n lân ac wedi eu dylunio i leihau'r tebygolrwydd o fwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth. | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 0 | 200 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 160 | 105 | 0 | 0 | 30 | **535** |
| 20 | Dysgu Gydol Oes | Addysg | 3 | 18 | 18 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Gosod bwylei+H9r newydd mewn Adeiladau Addysgol | Gosod bwyleri newydd mewn ysgolion sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ymarferol. Nid oes modd eu trwsio mwyach oherwydd nad yw'r partiau ar gael. Heb fwyleir neu ddŵr poeth, byddai'n rhaid cau ysgolion. | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 0 | 150 | C | Parhau i godi'r safonau o ran cyraeddiadau Addysgol. | 240 | 80 | 150 | 0 | 0 | 30 | **500** |
| 21 | Cymuned | Tai | 12 | 22 | 19 | Unwaith ac am byth | Tai Fforddiadwy | Darparu llety o safon dda i drigolion Ynys Môn sy'n hanfodol i iechyd, cyrhaeddiad addysgol, lles y teulu, cymunedau cynhaliwyd a safon bywyd. | 935 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | D | Cynyddu'r opsiynau tai fforddiadwy ar hyd a lled yr ynys a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd | 300 | 80 | 75 | 0 | 0 | 35 | **490** |
| 22 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 29 | 19 | 21 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Cyllid Strwythurol yr UE | Cyllid cyfatebol i adfywio ein cymunedau a datblygu'r economi. Mae dyfodol Ynys Môn yn edrych yn fwy llewyrchus gyda phrosiectau megis Wylfa Newydd ac Ynys Fenter. Mae'n canolbwyntio mwy ar wneud y mwyaf ar y cyfleon yn yr economi - mae Ynys Môn mewn sefyllfa unigryw i fanteisio'n llawn ar y rhaglenni hyn. | 2500 | 5000 | 5000 | 5000 | 2500 | Cyllid cyfatebol o Ewrop | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 80 | 0 | 50 | **430** |
| 23 | Dirprwy Brif Weithredwr | Yr Adran Gyllid | 43 | 28 | 22 | Unwaith ac am byth | System Electronig Ranbarthol ar gyfer Rheoli Achosion Cyfreithiol | Mae'r Cyngor yn rhan o brosiect cydweithio rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol.Mae'r prosiect yn symud ymlaen i brynu system electronig ar gyfer Rheoli Achosion (RhA). E<br>Er fod gan Adran Gyfreithiol y Cyngor hwn RhA yn barod, efallai na fydd yr un fath â'r system y mae'r prosiect cydweithio'n bwriadu ei brynu o G Cloud. SOs felly, byddai'n rhaid i'r Cyngor hwn brynu'r un system â gweddill y rhanbarth. Bydd methiant i wneud hynny yn cyfyngu'n ddifrifol ar gyfranogiad y Cyngor i'r prosiect cydweithio cyfreithiol rhanbarthol yn y gorffennol. | 80 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80 | G | | 300 | 100 | 0 | 0 | 0 | 20 | **420** |
| 24 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 27 | 21 | 23 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Trwsio a Chynnal a Chadw Eiddo | Mae gan nifer o adeiladau nad ydynt yn rhai addysgol, e.e. Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, adeiladau Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati â thoeau sy'n gollwng, ffenestri nad ydynt yn agor neu sydd wedi pydru, problemau tamprwydd a risgiau eraill i ddiogelwch - mae'r fid hon yn rhoi sylw i'r rhain. | 700 | 700 | 700 | 700 | 700 | 0 | 700 | D | | 150 | 140 | 75 | 0 | 0 | 35 | **400** |

| Cyfeirnod | Cyfadran | Adran | Cyfeirnod Cyfalaf | Ranc Gwreiddiol | Ranc wedi ei Bwysoli | Cynllun Treigl / Unwaith ac am Byth | Cynllun arfaethedig | Disgrifiad Cryno | 2015/16 Cost Bl 1 (£'000) | 2016/17 Cost Bl 2 (£'000) | 2017/18 Cost Bl3 (£'000) | 2018/19 Cost Bl 4 (£'000) | 2019/20 Cost Bl 5 (£'000) | Grant | Cyllid net gan CSYM 2015/16 (£'000) | Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi | Y rhan o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi | Cyfraniad y prosiect at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol | Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru | Y gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DGA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed | Cadernid y trefniadau rheoli prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 34 | 25 | 24 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Rhaglen Cadwyn Gyflenwi Ranbarthol | Mae'r Rhaglen Cadwyn Gyflenwi Ranbarthol (RhCGR) yn anelu at gydlynu, galluogi a phlygu'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fusnesau drwy ymgysylltu gyda chyflenwyr Haen 1 a 2 i ddeall eu gofynion ac defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu a datblygu darpar gyflenwyr yng Ngogledd Cymru. | 871 | 871 | 0 | 0 | 0 | Angen Cyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 80 | 0 | 10 | **390** |
| 26 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 33 | 24 | 25 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Cynllun Cymorth Mentrau Cymdeithasol Cyfenter | Cefnogi twf a chynhyrchiant y sector Mentrau Cymdeithasol yng Ngogledd Orllewin Cymru drwy dargedu cymorth ariannol. | 1100 | 1100 | 1100 | 1100 | 1100 | 3,575 dros y 5 mlynedd | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 70 | 0 | 15 | **385** |
| 27 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 28 | 26 | 26 | Rhaglen I'w darparu | Mân-ddaliadau | Yn unol â phenderfyniadau Pwyllgor Gwaith ar 24/4/10, cychwynnodd y rhaglen yn 2011/12 ac mae 2/3 o'r ffordd drwodd. Bydd yn adnewyddu ac yn gwella adeiladau'r stad er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r tenantiaid eu defnyddio ac yn darparu llety addas sy'n creu cyfleon ar gyfer ffermwyr ifanc yn y diwydiant amaethyddol. | 1,300 | 1,300 | 0 | 0 | 0 | Derbyniadau Cyfalaf yn cael eu diogelu | 1,300 | B | | 90 | 100 | 60 | 0 | 100 | 10 | **360** |
| 28 | Dirprwy Brif Weithredwr | TGCh | 40 | 29 | 37 | Unwaith ac am byth | Uwchraddau'r System Rheoli Cynnwys Corfforaethol | Uwchraddio Gwefan y Cyngor fel y gellir ei defnyddio ar ffonau symudol a thabledi | 126 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 126 | G | | 150 | 100 | 0 | 0 | 60 | 50 | **360** |
| 29 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | 17 | 23 | 27 | Unwaith ac am byth | Toiledau Cyhoeddus | Works to provide sewage treatment plants and install coin collection machines to achieve revenue saving of £75k in 2015/16 by reducing maintenance costs | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | N/A | | 0 | 100 | 75 | 0 | 140 | 35 | **350** |
| 30 | Datblygiad Cynaliadwy | Planning & Public Protection | 37 | 27 | 28 | Unwaith ac am byth | Parc Carafan Modur aTeithio yn Nghaergybi | Mae'r cynnig yn rhan o raglen barhaus o welliannau i wella'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer y cyhoedd ym Mharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi sydd ym mherchenogaeth y Cyngor. Bydd y gwelliannau unwaith y byddant wedi eu cwblhau, yn golygu y bydd modd efallai cael cyllid refeniw ychwanegol a fydd o gymorth i sicrhau fod y parc yn gallu cyllido ei hun yn y dyfodol gyda llai o ddibyniaeth ar gyllid craidd y Cyngor. | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80% o £200k o'r Grant LILILIA heb ei ddiogelu eto, os caiff ei gymeradwyo, bydd angen cyfraniad o £50k gan CSYM | 50 | B | | 150 | 0 | 0 | 80 | 100 | 5 | **335** |
| 31 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 35 | 37 | 29 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Cronfa Fuddsoddi Leol | Bydd y fenter arfaethedig yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau micro a bychan newydd a chyfredol, swm o hyd at £10k tuag at fuddsoddiadau cyfalaf ac wrth wneud hynny, bydd rhoi sylw i fethiant y farchnad gyfredol i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau micro a bychan. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Angen cyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | **315** |
| 32 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 36 | 38 | 30 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy Arforol | Mae gan RhYY botensial sylweddol i sicrhau trawsnewidiad economaidd ar lefel ranbarthol os bydd yr amodau ar gyfer twf yn eu lle. Bydd y weithgaredd arfaethedig yn gosod isadeiledd pwer rhwng gwely'r môr a chysylltiad ar y tir gan ganiatáu i CHWECH o weithredwyr technoleg llanwol i gynhyrchu 120MW o ynni adnewyddadwy. Mae diffyg cysylltiad i'r grid yn broblem fawr a difrifol ar gyfer datblygwyr preifat. Bydd y prosiect yn golygu y bydd y parth MORlais dynodedig, harbwr twfn Caergybi ac ardaloedd arforol eraill yn addas ar gyfer cynhyrchu ynni arforol y mwyaf deniadol yn y DU | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Angen cyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | **315** |
| 33 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a GwasanaethauTechnegol | 20 | 30 | 31 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Ffyrdd ar Stadau | Mae nifer o lonydd stadau'r sir mewn cyflwr gwael gan gynnwys troedffyrdd. Mae hyn yn golygu y bydd modd targedu ymyrraeth ar sail raglenedig i leihau risg a gwella cyflwr ardaloedd preswyl bydd yn lleihau'r risg o hawliadau am anafiadau. | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | D/B | | 0 | 140 | 45 | 0 | 60 | 25 | **270** |

| Cyfeirnod | Cyfadran | Adran | Cyfeirnod Cyfalaf | Ranc Gwreiddiol | Ranc wedi ei Bwysoli | Cynllun Treigl / Unwaith ac am Byth | Cynllun arfaethedig | Disgrifiad Cryno | 2015/16 Cost Bl 1 (£'000) | 2016/17 Cost Bl 2 (£'000) | 2017/18 Cost Bl3 (£'000) | 2018/19 Cost Bl 4 (£'000) | 2019/20 Cost Bl 5 (£'000) | Grant | Cyllid net gan CSYM 2015/16 (£'000) | Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi | Y rhan o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi | Cyfraniad y prosiect at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol | Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru | Y gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DGA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed | Cadernid y trefniadau rheoli prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a GwasanaethauTechnegol | 19 | 32 | 32 | Rhaglen Dreigl - Gosod peiriannau talu ac arddangos newydd | Meysydd Parcio | Cynnal Meysydd Parcio sy'n dod ag incwm i'r gyllideb refeniw. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud gwaith a allai achosi problemau mawr o ran diogelwch oni fyddai'n cael sylw. Hefyd, ceir cyllid cyfatebol pan fydd grantiau'n cael eu rhyddhau ar gyfer gwaith gwella. | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | B | | 90 | 100 | 45 | 0 | 0 | 25 | **260** |
| 35 | Dysgu Gydol Oes | Amgueddfeydd a Threftadaeth | 42 | 35 | 33 | Unwaith ac am byth | Gwaith hanfodol yn Jêl a Llys Biwmares (mewn paratoad o bosib ar gyfer eu hallanoliil asiantaeth | Mae allanoli'n un ffordd ymlaen ar gyfer rhai o safleoedd twristaidd a threftadaeth pwysig yr ynys. Er mwyn denu asiantaeth allanol i fabwysiadu a rhedeg y safleoedd hyn yn lle'r Cyngor, rhaid i'r adeiladau fod mewn cyflwr da ac yn fusnesau twristiaeth hyfyw sy'n cynhyrchu incwm. Mae adroddiad manwl | 232 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 232 | B/E | | 90 | 40 | 0 | 0 | 80 | 25 | **235** |
| 36 | Cymuned | Tai | 11 | 31 | 34 | Unwaith ac am byth | Prynu Tir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | Prynu a datblygu tir ar gyfer sipsiwn a theithwyr ar Ynys Môn. Mae'r fid yn seiliedig ar yr angenil brynu tir ar gyfer 2 safle dros dro / transit sy'n 1 ere a 1 safle preswyl parhaol o 2.5 erw. | 3,590 | 0 | 0 | 0 | 0 | am gyllid LIC ar ddiwedd 2015 ar gyfer 2016/17 | I'w gadarnhau | D | | 120 | 0 | 75 | 0 | 0 | 35 | **230** |
| 37 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol+B29 | 22 | 33 | 35 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Cynlluniau Strwythurol Pwysig | Maintain several bridges, culverts and retaining walls. This will undertake planned maintenance to these structures above and beyond that can be ubdertaken from revenue budget | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | N/A | | 0 | 100 | 45 | 0 | 60 | 25 | **230** |
| 38 | Datblygiad Cynaliadwy | Environment & technical Service | 23 | 34 | 36 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Ffyrdd | Mae angen cynnal a chadw rhwydwaith y Cyngor yn barhaus. Mae'r gronfa hon yn golygu y gellir gwneud gwaith pwysig na fyddai'n bosibl fel arall | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | N/A | | 0 | 100 | 45 | 0 | 60 | 25 | **230** |
| 39 | Datblygiad Cynaliadwy | Economaidd & Cymuned | 30 | 41 | 38 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Safleoedd ac Eiddo Strategol | Oherwydd y cyfleon yn sgil y Rhaglen Ynys Ynni (RhYY), mae Ynys Môn ar frig mewnfuddsoddiad sylweddol o'r sector carbon isel ac ynni. Bydd y prosiect hwn yn ceisio darparu safleoedd ac eiddo ac arnynt wasanaethau o safon uchel mewn lleoliadau cyflogaeth allweddol er mwyn denu mewnfuddsoddiad | 5000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Yn amodol ar gyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | **190** |
| 40 | Datblygiad Cynaliadwy | Economaidd & Cymuned | 31 | 42 | 39 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Rhaglen Isadeiledd Cyfleustodau | Mae cyfyngiadau sylweddol o fewn iadeiledd cyfleustodau'r briffordd a allai gyfyngu ar effaith economaidd buddsoddiadau sydd wedi eu rhaglennu. Mae angen buddsoddiad sylweddol i wella capasiti'r isadeiledd cyfleustodau (rhwydwaith trydan ac ati) er mwyn manteisio i'r eithaf ar y datblygiadau ynni mawr. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Yn amodol ar gyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | **190** |
| 41 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 32 | 43 | 40 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Rhaglen Isadeiledd Strategol Llangefni | Llangefni wedi ei nodi fel lleoliad allweddol. Mae tri safle sy'n agos at ei gilydd â'r potensial i fod yn hyb cyflogaeth a hyfforddiant allweddol o bwys rhanbarthol os gwneir y buddsoddiad iawn. | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Yn amodol ar gyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | **190** |
| 42 | Datblygiad Cynaliadwy | Environment & technical Service | 21 | 39 | 41 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen ond nid yw ar gael eto | Goleuadau | Rhaglen i osod lampau newydd mwy ynni effeithlon ac sy'n achosi llai o lygredd goleuni sy'n golygu y defnyddir llai o dryan gan arwain ar arbedion refeniw a lleihau ôl-troed carbon. | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 0 | 30 | D/B | | 0 | 0 | 0 | 0 | 140 | 25 | **165** |
| 43 | Cymuned | Tai | 14 | 36 | 42 | Dim Rhaglen - Ad Hoc | Cynllun Benthyciadau Tai Sector Preifat | Gwella cartrefi Landlordiaid Preifat ar Ynys Môn, e.e. sicrhau cartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Petai cynllun Wylfan Newydd yn mynd yn ei flaen, amcangyfrifir y bydd tua 8000 o weithwyr yn cael eu cyflogi ar yr adegau prysuraf. | 740 | 500 | 510 | 0 | 0 | LIC £254k | 486 | D | | 90 | 0 | 0 | 40 | 0 | 30 | **160** |
| 44 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 25 | 40 | 43 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen ond nid yw ar gael eto | Cadwraeth Ynni | Gallai diffyg buddsoddiad effeithio ar ein gallu i gwrdd â thargedau'r Sector Cyhoeddus. Argymhellir y dylai 10% o'r gwariant ar ynni a dwr gael ei fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni a dwr. | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | D/B | | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 35 | **135** |

| **Allwedd: Blaenoriaeth Gorfforaethol:** | |
|---|---|
| A | Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| B | Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi |
| C | Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion |
| D | Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi |
| E | Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd |
| F | Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned |
| G | Trawsnewid ein Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) |

## MATRICS SGORIO

### 1. Prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni prosiectau corfforaethol (Pwysoliad 30%)

- Rhoddir 300 o bwyntiau os yw'r cynllun yn cwrdd yn llawn ag un neu ragor o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 299 os yw'r cynllun yn cwrdd yn rhannol â'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, gyda'r sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb yr effaith. Os yw cynllun yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau corfforaethol, dylai sgorio dros 200 o bwyntiau, ond os yw cynllun ond yn cwrdd â chyfran fechan o'r blaenoriaethau corfforaethol, yna dylai sgorio llai na 100. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cwrdd ag unrhyw un o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

### 2. Prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol (Pwysoliad 20%)

- Rhoddir 200 o bwyntiau os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn llawn.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn rhannol. Bydd y sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb y lliniaru. Os yw cynllun yn lliniaru llawer ar y risg gorfforaethol, dylai sgorio dros 120 o bwyntiau, ond os yw ond yn lliniaru rhywfaint ar risg gorfforaethol, yna dylai sgorio llai na 50. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r cynllun yn lliniaru dim ar y risg gorfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

### 3. Rheidrwydd i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, y Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) er mwyn lliniaru her (Pwysoliad 15%)

- Rhoddir 150 o bwyntiau os oes angen y cynllun yn llawn i gydymffurfio'n gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 149 os yw'r cynllun yn cydymffurfio'n rhannol gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DAG. Bydd y sgôr yn adlewyrchu lefel y gydymffurfiaeth. Os yw'r cynllun yn cydymffurfio i raddau helaeth gyda'r cyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, dylai sgorio dros 100 o bwyntiau, ond os yw ond yn cydymffurfio i lefel isel, dylai sgorio llai na 30. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, rhoddir sgôr o 0.

### 4. Lefel y cyllid ar y cyd/cyllid cyfatebol a all fod ar gael (Pwysoliad 10%)

- Os yw'r cynllun yn derbyn 100% cymorth grant, bydd yn sgorio 100 o bwyntiau. Os yw'r cynllun yn derbyn 50% cymorth grant, bydd yn sgorio 50 o bwyntiau. Os nad yw'r cynllun yn derbyn unrhyw gymorth grant o gwbl, yna ni fydd yn sgorio unrhyw bwyntiau.

### 5. Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial buddsoddi i arbed (Pwysoliad 20%)

- Rhoddir 200 o bwyntiau os bydd y cynllun yn cael effaith fawr ar y gyllideb refeniw neu â photensial mawr o ran buddsoddi i arbed.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn cael rhywfaint o effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu â photensial o ran buddsodd i arbed, gyda'r sgôr yn dibynnu ar yr effaith a gaiff ar y gyllideb refeniw. Dylai effaith hynod ffafriol sgorio dros 120 o bwyntiau a disgwylir y bydd cynllun effaith isel yn sgorio llai na 50 o bwyntiau.
- Onid oes unrhyw effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial o ran buddsoddi i arbed, rhoddir sgôr o 0.

### 6. Cadernid o ran Rheoli Prosiect (Pwysoliad 5%)

- Bydd trefniadau rheoli prosiect hollol gadarn yn sgorio 50 o bwyntiau.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 49 gan ddibynnu ar ba mor gadarn yw'r trefniadau rheoli prosiect a bydd y sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r trefniadau rheoli prosiect yn gadarn o gwbl, rhoddir sgôr o 0.

## ADNODDAU CYFALAF

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn hynod brin o adnoddau cyfalaf. Roedd oddeutu £2m o dderbyniadau cyfalaf i law ar 1 Ebrill 2014 a rhagwelir y bydd £2.5m pellach ar gael erbyn 31 Mawrth 2015. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor yn derbyn, drwy'r Grant Cymorth, ddyraniad pellach o £3.522m y gellir ei wario ar gyfalaf. O'r herwydd, mae gan y Cyngor sylfaen o £6.5m y gellir ychwanegu grantiau ato mewn achosion lle mae cynlluniau cyfalaf yn denu grantiau o'r fath.

Ar hyn o bryd, nid oes modd diffinio'n rhesymol yr adnoddau a fydd ar gael y tu hwnt i 2016/17 fel y dangosir yn y tablau isod. Felly, er bod rhai prosiectau'n cael eu dangos am flynyddoedd i'r dyfodol, mae lefel o ansicrwydd gydag unrhyw brosiect ar ôl 2016/17. Dylid cadw mewn cof hefyd y gall cynlluniau 'argyfwng' neu newidiadau i flaenoriaethau ddigwydd ar unrhyw adeg ac y bydd cynlluniau newydd efallai'n cael eu cyflwyno ar gyfer eu hystyried a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

### ADNODDAU CYFALAF 2015/16

Dyma'r Adnoddau Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer 2015/16 :-

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf | | |
| (ac eithrio'r arian sydd wedi ei neilltuo'n benodol i'r Mân-ddaliadau) | 2,500 | |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | | |
| (LlC drwy'r Grant Cymorth) | 2,189 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (LlC) | 1,333 | |
| Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf fydd yn cael eu rhyddhau yn 2014/15 | 2,000 | |
| | | 8,022 |
| Grantiau Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau sydd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr arfaethedig (Biwmares) | | 765 |
| | | 8,787 |
| Grantiau Arbennig sy'n ymwneud â chynlluniau arfaethedig ar gyfer ysgolion | | |
| Ysgolion | 4,578 | |
| | | 4578 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael** | | **13,365** |
| (heb orfod benthyca) | | |

### ADNODDAU POSIBL 2016/17

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf | 1,000 | |
| (ac eithrio'r arian sydd wedi ei neilltuo'n benodol i'r Mân-ddaliadau) | | |
| Benthyca gyda Chefnogaeth (gan dybio y bydd y lefelau'r un fath â 2015/16) | | |
| (LlC drwy'r Grant Cymorth) | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (LlC) | 1,333 | |
| | | 4,522 |
| Grantiau Arbennig sy'n ymwneud â chynlluniau arfaethedig | | |
| Ysgolion | 1,700 | |
| | | 1,700 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a all fod ar gael** | | **6,222** |
| (heb orfod benthyca) | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Rhagfyr, 2014** |
| **Pwnc:** | **Cytundebau Bysiau Ysgol – y strwythur tendro a'r taliadau** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Jane Marr**<br>**01248 752936**<br>**jaynemarr@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae angen i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad ar dri mater:

A1 Cyflwyno polisi "dim tocyn dim teithio" i bob disgybl.
A2 Cynyddu'r taliadau i'w halinio'n agosach â'r gwir gostau.
A3 Rhesymoli gwasanaethau bws an-statudol.

Mae sawl rheswm pan bod angen rhoi ystyriaeth i'r materion hyn gan gynnwys:

- Sicrhau iechyd a diogelwch pob teithiwr wrth sicrhau sedd benodol ar y gwasanaeth bws.
- Adennill costau a gafodd eu hamsugno gan yr adran hyd yma oherwydd ni ellir parhau i wneud hynny yn yr hinsawdd presennol.
- Trin pob teulu'n gyfartal ar draws y ddarpariaeth ysgolion cynradd.

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno i'r materion a ganlyn:

1. Cytuno i gyflwyno system "dim tocyn, dim teithio". Bydd hyn yn gymorth i sicrhau bod gan bob teithiwr sedd benodol ar y bws.
2. Opsiwn 2 a nodir yn yr atodiad sef cynyddu'r tal yn raddol er mwyn cysoni'r ffioedd gyda gweddill awdurdodau'r Gogledd.
3. Sicrhau cysondeb yng ngweithrediad y Polisi Cludiant trwy ddileu y gwasanaethau anstatudol cyfredol a nodir, sef Pentre Berw i Ysgol Esceifiog a Maes Llwyn / Porth Amlwch i Ysgol Gynradd Amlwch.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Mae’r egwyddor “dim tocyn, dim teithio” yn berthnasol i bob un o’r cynigion. Rhoddwyd ystyriaeth i ddau opsiwn arall mewn perthynas â chodi ffioedd, sef (i) codi’r ffi 5% yn flynyddol i gyfarfod a chwyddiant a (ii) addasu’r lefel o ffioedd a nodir ar gyfer y gwahanol grwpiau o deithwyr a gyfeirir atynt yn yr adroddiad [sef disgyblion sy’n byw llai na 3 milltir o’r ysgol (2 yn y cynradd); myfyrwyr ysgol ôl-16; myfyrwyr coleg ôl-16; a’r rhai sy’n talu am ‘sedd wag’ o tu allan i’r dalgylch].<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth deg i barhau â’r gwasanaeth i ysgolion Esceifiog a chynradd Amlwch ar yr amod bod rhaid i ddefnyddwyr dalu’r costau ond ni dderbyniwyd hyn ar sail bod y trefniant yn groes i’r polisi sirol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Mae’r penderfyniad yn ymwneud â chodi ffioedd cludiant sydd yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Gwaith. |

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim materion cyfreithiol, ond cynigwyd rhai ystyriaethau caffael i'w hystyried. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau |
| **5** | **Eiddo** | Yr adran drafnidiaeth yn ystyried y cynnwys yn rhesymol. Gall rhai costau staffio ychwanegol godi yn sgil gweinyddu'r tocynnau a ffioedd. Caiff hwn ei ystyried ymhellach yn y cam nesaf. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Detholiad o Gofnodion Drafft y Pwyllgor Craffu Corfforaethol 24ain Tachwedd, 2014 – Perthynol i Eitem9/10: Cytundebau Bysiau Ysgol;<br><br>9 CADW ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD<br>Penderfynwyd o dan Adran 100(A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gadw allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail ei fod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir yn Adran 12A o'r Ddeddf ddywededig ac ym Mhrawf Diddordeb y Cyhoedd a gyflwynwyd.<br>10 CYTUNDEBAU BYSIAU YSGOL – STRWYTHUR TENDRAU A CHODIANNAU<br>Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Addysg Uwchradd yn amlinellu newidiadau arfaethedig yn nhendrau a strwythur codi tâl bysiau ysgol er ystyriaeth y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn gosod allan y materion y mae angen |

| | | |
|---|---|---|
| | | mynd i'r afael â hwy yn rhan o'r broses aildendro ynghyd â chynigion ar gyfer cyflwyno polisi dim pàs, dim teithio ar gyfer pob disgybl; cynnydd mewn codiannau yn unol â gwir gostau a rhesymoli gwasanaethau bysiau anstatudol.<br>Adroddodd y swyddog Addysg Uwchradd ar y rhesymeg ar gyfer cyflwyno polisi dim pàs, dim teithio a fyddai'n galluogi'r Awdurdod Addysg yn well i sicrhau trefniadau iechyd a diogelwch yn nhermau gallu darparu rhestr o deithwyr mewn amgylchiadau lle gallai hynny fod yn ofynnol. Mewn perthynas â chodiannau, esboniodd y Swyddog y bydd y cytundebau newydd ar gyfer teithio ar fysiau yn parhau i gynnwys addasiadau chwyddiant blynyddol ar gyfer yr adran. Tra bo'r adran hyd yma wedi gallu amsugno'r costau hyn heb gynyddu costau i'r teithiwr, mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn ei gwneud yn anodd i gynnal y sefyllfa hon. Cyfeiriodd at y strwythur codiannau presennol o'i gymharu â'r sefyllfa mewn siroedd eraill ac ymhelaethodd ar yr opsiynau ar gyfer newid a'u goblygiadau cyllidol. Mewn perthynas â darparu gwasanaethau bysiau anstatudol, dywedodd y Swyddog mai'r cynnig yw rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau anstatudol a osodwyd yn yr adroddiad sy'n seiliedig ar drefniadau hanesyddol acsydd heb fod yn unol â pholisi cludiant presennol y Cyngor. Byddai hyn hefyd yn sicrhau cydraddoldeb cyfle i bob teulu drwy'r Ynys na wasanaethir gan ddarpariaeth o'r fath.<br>Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion a cheisiodd sicrwydd mewn perthynas â'r materion a ganlyn:<br>Na fydd y cynnydd arfaethedig mewn codiannau yn anffafrio disgyblion o ardaloedd difreintiedig. Cadarnhaodd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Swyddog Addysg Uwchradd bod cyfundrefn o gefnogaeth ar gael ar gyfer teuluoedd tlotach o dan y Lwfans Cynnal Addysg i rai mewn addysg bellach. Ymgymerir ag asesiad effaith ac ymgynghori llawn gyda chydranddalwyr er mwyn sicrhau na roddir unrhyw riant/disgybl/ysgol dan anfantais a bod cyfundrefn dalu deg yn cael ei chyflwyno.<br>• Y rhoddir amddiffyniadau yn eu lle er mwyn sicrhau na wrthodir mynediad i wasanaeth bysiau i ddisgyblion sy'n colli neu'n camleoli eu pàs teithio ac y sicrheir eu diogelwch ar bob adeg. Dywedodd y Swyddog Addysg Uwchradd y bydd angen sefydlu trefniadau dros dro digonol ar gyfer disgyblion sydd wedi colli neu gamleoli eu pàs.<br>• Trefniadau ar gyfer monitro a gweinyddu'r gyfundrefn. Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai'r ffordd ddewisol ymlaen yw symud tuag at gyfundrefn electronig e.e. drwy Ymestyn cyfundren dalu am brydau ysgol Squid lle gwneir taliadau ar lein neu drwy drefnu cyfundrefn dalu debyd uniongyrchol.<br>• Mae'r angen hanfodol i gyfathrebu'r newidiadau arfaethedig i rieni, disgyblion a llywodraethwyr mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn deall yn llawn yr hyn y maent yn ei olygu a pha gefnogaeth sydd ar gael. Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Uwchradd bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Swyddogion Lles a'r grwpiau cefnogi e.e. Tîm o amgylch y Teulu i roi gwybod i rieni a theuluoedd am eu hawliau<br>• Yr angen i ymgymryd ag asesiad risg mewn perthynas â'r cynnig i beidio â pharhau'r gwasanaethau anstatudol fel y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dywedodd y Swyddog Addysg Uwchradd mai dyna a fyddai'r cam cyntaf yn y broses.<br>Penderfynwyd:<br>• Cefnogi cyflwyno polisi dim pàs, dim teithio ar gyfer pob disgybl (Ataliodd y Cynghorydd A. Griffith ei phleidlais).<br>• Cefnogi codiannau uwch yn unol â gwir gostau o fis Medi 2015 yn unol ag Opsiwn 2 yn yr adroddiad.<br>• Cefnogi amharhad o fis Medi, 2015 y gwasanaethau bysiau anstatudol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, yn ddarostyngedig i gwblhau asesiad risg o'r teithiau dan sylw.<br>DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Pennaeth Gwasanaeth Plant<br>Pwysleisio'r angen i sicrhau diogelwch a diogelu plant a phobl ifanc o fewn unrhyw gytundeb newydd. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Cytundebau Bysiau Ysgol – tendrau a thaliadau. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

ATODIAD 1-

## Cytundebau Bysiau Ysgol – tendrau a thaliadau

### Cyflwyniad

Mae'r adran addysg angen penderfyniad ar dri mater:

- Cyflwyno polisi "dim tocyn dim teithio" i bob disgybl
- Cynyddu'r taliadau i'w halinio'n agosach â'r gwir gostau
- Rhesymoli gwasanaethau bws anstatudol

### Cyflwyno polisi "dim tocyn dim teithio"

Y sefyllfa bresennol

Bydd y cytundebau bysiau ysgol presennol yn dod i ben ddiwedd Medi 2015. Mae angen gwahodd tendrau ar gyfer y cytundebau newydd a fydd yn weithredol o Hydref 2015. Ni ragwelir unrhyw newid yn y polisi presennol ar gyfer cytundebau bysiau ysgol (fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Craffu ar 26/10/12).

Mae'r AALl yn darparu cludiant ysgol di-dâl ar gyfer disgyblion dan 16 oed fel a ganlyn:-

a) Ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol gynradd y maent yn byw yn ei dalgylch**;**

b) Ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol uwchradd y maent yn byw yn ei dalgylch;

c) Ar gyfer disgyblion y mae eu hanghenion addysgol arbennig, eu cyflwr meddygol neu eu hamgylchiadau unigol eraill, ym marn yr ALL, yn peri bod cludiant di-dâl yn angenrheidiol;

d) Ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer cludiant o dan (a), (b) neu (c) ond sy'n teithio i'r ysgol ar hyd llwybr a ystyrir gan y Cyngor Sir i fod yn beryglus;

e) Ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol wahanol i un y dalgylch os mai hi yw'r ysgol agosaf i'r cartref ac os bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol yn 2 filltir neu fwy yn achos disgyblion cynradd neu 3 milltir yn achos disgyblion uwchradd.

Ar wahân i'r plant hynny yn (c), disgwylir i blentyn deithio hyd at 2 filltir i gyfarfod ag unrhyw gludiant a ddarperir.

Gall disgyblion sy'n byw o fewn y pellterau hyn (2 filltir yn achos ysgol gynradd a 3 milltir yn achos ysgol uwchradd) dalu 40c y dydd yn uniongyrchol i yrrwr y bws ar gyfer eu cludo i'r ysgol. Cafodd hyn ei gynnwys yn y cytundeb presennol, gyda'r cwmni bysiau yn cadw'r arian. Mae'r adran yn trefnu bysiau ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ee Llanfairpwll, Porth Amlwch, Pencraig.

Nid oes cludiant di-dâl ar gael i ddisgyblion ôl-16 ond gallant brynu tocyn teithio am bris wedi ei sybsideiddio'n sylweddol i deithio ar fysiau ysgol/coleg, sef £60.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cynnig "cynllun seddi gweigion" lle gall rhieni brynu seddi sbâr ar fysiau ysgol penodol pan fo eu plentyn yn mynychu ysgol tu allan i'w dalgylch. Mae'n costio £60 y tymor neu £120 os prynir tocyn blwyddyn gyfan.

**Materion sydd angen sylw fel rhan o'r broses ail dendro**

**<u>Y polisi "dim tocyn dim teithio"</u>**

Mae'r polisi presennol o ganiatáu i ddisgyblion dalu ar y bws yn golygu nad oes modd sicrhau sedd ar gyfer pob disgybl. O'r herwydd nid oes gan yr Awdurdod restr o'r teithwyr dyddiol, a phe bai damwain neu fws yn torri lawr ni all fod yn sicr o'i allu i gysylltu â phob rhiant.

Cynigir symud tuag at bolisi lle bydd raid i bob disgybl fod â thocyn deithio. Fe'i rhoddid yn ddi-dâl i fyfyrwyr cymwys a'i brynu gan fyfyrwyr heb hawl i docyn di-dâl.

Gweithredai'r polisi "dim tocyn dim teithio" i bawb yn ddiwahân, tra'n sicrhau na fydd plentyn yn cael ei roi mewn perygl os cyfyd argyfwng, neu os yw wedi colli neu heb fod yn berchen ar docyn bws. Byddid yn cynnal ymgynghoriad llawn gyda phawb cysylltiedig i sefydlu dulliau taliadau teg tra'n gwneud yn siŵr nad oes rhieni / disgyblion / ysgolion dan anfantais.

Mae sawl awdurdod eisoes wedi cyflwyno trefniant tebyg.

**Sicrhau casglu'r taliad am docyn teithio oddi wrth ddisgyblion chweched dosbarth**.

Mae'r ffigyrau yn y papur hwn i gyd yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd ac nid y flwyddyn ariannol.

Nid yw pob myfyriwr ol-16 sydd i fod i dalu am docyn teithio yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

Mae'r Awdurdod yn gofyn am ganiatad i sefydlu trefn fydd yn sicrhau bod pob myfyriwr sydd i fod yn talu am docyn teithio ol-16, yn gwneud hynny. Sicrheir bod dulliau taliadau teg a hyblyg yn cael eu sefydlu i wireddu hyn, yn dilyn ymgynghoriad llawn.

**<u>Cynyddu'r taliadau yn unol â'r gwir gostau</u>**

Bydd yr adran yn gorfod cynyddu taliadau blynyddol er mwyn cyfarfod a chwyddiant yn y cytundebau teithio newydd. Hyd yma llwyddwyd i amsugno'r costau hyn heb gynyddu'r gost i deithwyr. Fodd bynnag, nid yw yn bosib parhau i wneud hyn yn yr hinsawdd ariannol gyfredol.

Dyma'r sefyllfa (costau blynyddol) presennol o'i gymharu a siroedd eraill y Gogledd:

| | **Ôl 16** | **Disgyblion dan 3 milltir** | **Tu allan i'r dalgylch** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £60 | 20p y daith /£60 y flwyddyn | £120 |
| Awdurdod 2 | £0 | £150 | £150 |
| Awdurdod 3 | £0 | £150 | £150 |
| Awdurdod 4 | £0 | £165 | £165 |
| Awdurdod 5 | £180 | 30p y daith/ £75 y flwyddyn | £150 |
| Awdurdod 6 | £0 | £150 | £150 |

Mae disgyblion ôl-16 Ynys Môn yn talu llawer llai na sir gyfagos a disgyblion Ynys Môn yn talu llai o gymharu â'r pum awdurdod lleol arall yn achos disgyblion uwchradd sy'n byw lai na thair milltir o'u hysgol.

**Newidiadau arfaethedig i'r taliadau teithio**

Dymunwn archwilio nifer o opsiynau, fel a ganlyn:

**Dewis 1**
Cadw at y drefn bresennol OND cyflwyno system "dim tocyn dim teithio", a codi'r ffi oddeutu 5% yn flynyddol i dalu codiadau chwyddiant.

| MANTEISION | RISGIAU | FFACTORAU LLINIARU |
|---|---|---|
| Cynyddu refeniw | Teuluoedd yn methu talu un lwmp-swm | Cyflwyno dewisiadau debyd uniongyrchol neu daliadau ar-lein |
| Sedd benodol i bob teithiwr yn lleihau gofynion sy'n gwrthdaro i yrwyr | | |
| Cydymffurfio â rheoliadau gwregysau teithio 1 Hydref 2014 | | |
| Adnabod pob teithiwr ar y bws. | | |

Ar sail y refeniw a gafwyd eisoes gan fyfyrwyr coleg, y "cynllun seddi gwag" a'r tocynnau teithio i ddisgyblion sy'n teithio llai na 3 milltir i'r ysgol, byddai hyn yn cynhyrchu refeniw ychwanegol o tua £35,000. Bydd hyn yn golygu na fyddai'r incwm yn codi digon i gyfarfod a'r costau ychwanegol o dan y gytundeb newydd.

**Dewis 2**

Cynyddu'r tâl yn raddol er mwyn dod â'r ffioedd yn agosach at ffioedd gweddill awdurdodau Gogledd Cymru.  Er enghraifft, codi'r ffi i deithiau o dan 3 milltir i £80 yn 2015/16; codi'r ffi ôl-16 i £90 ac y ffi allan o'r dalgylch i £150.

Ar sail y refeniw a dderbyniwyd oddi wrth fyfyrwyr coleg, y "cynllun seddi gwag" a'r tocynnau teithio i ddisgyblion sy'n teithio llai na 3 milltir i'r ysgol, byddai hyn yn cynhyrchu refeniw ychwanegol o tua £64,000 yn 2015-16; (heb ystyried codiad yng nghost y gontract).

**Dewis 3**

Addasu'r opsiynau a nodir ar gyfer y gwahanol grwpiau.

**Y dewis sy'n cael ei ffafrio**

Ni ddymuna'r adran weld tocio gwasanaethau. Fodd bynnag, er mwyn cynyddu refeniw yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan yr adran yw Dewis 2.

Os nad yw'r opsiwn yma'n dderbyniol, bydd unrhyw un o'r ddau opsiwn arall yn gwella iechyd a diogelwch ar y bysiau oherwydd trefn 'dim tocyn, dim teithio'.

Dewis 1 ydi'r lleiaf ffafriedig gan fod costau uwch ynghlwm â'r contractau newydd o Hydref 2015, a bydd mabwysiadu'r dewis yma'n dwysau sefyllfa ariannol yr adran. Dewis 3 yw'r ail ddewis ffafriedig.

**Rhesymoli gwasanaethau bws anstatudol**

Ar hyn o bryd mae dau wasanaeth penodol i ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n byw lai na dwy filltir o'u hysgol. Y rhain yw gwasanaeth Pentre Berw i Ysgol Esceifiog, Gaerwen a Maes Llwyn a gwasanaeth Porth Amlwch i Ysgol Gynradd Amlwch. Trefniadau hanesyddol ydynt a sefydlwyd pan oedd y ffordd cerdded i'r ysgol yn cael ei ystyried yn anaddas. Mae'r ddau wasanaeth yn groes i bolisi trafnidiaeth presennol y cyngor o ddarparu cludiant "ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch". Ni chynigir gwasanaeth tebyg ar gyfer unrhyw ysgol arall.

Mae cynnig y gwasanaeth anstatudol hwn yn ychwanegu tua £25,000 at gostau cludiant yr adran.

Er mwyn trin pob teulu'n gyfartal ar draws yr ynys, y dewis yr ydym yn ei ffafrio yw atal y gwasanaethau hyn o fis Medi 2015.

This page is intentionally left blank